# Y BIGWN

CYF. 31 RHIF 4 MEHEFIN 2019 *Papur Bro Dinbych* *Pris 50c*

## Clwb Gosod Blodau



Jacqui Cooper
Tud 5

## Ffarwelio â Nesta



Tud 18

## Gwobrwyo Clybiwr y Flwyddyn



Tud 22

## Tîm Egni yn Detroit



Ysgol Glan Clwyd Tud 12

**BOB DIM i fod wedi cyrraedd bocs Y Bigwn yn y Llyfrgell erbyn HANNER DYDD, dydd Gwener, Mehefin 21, neu os oes modd, drwy ebost i ybigwn@hotmail.co.uk - Ar Werth Gorffennaf 6, 2019**




Maer y flwyddyn hon Y Cynghorydd Gaynor Wood-Tickle a'i gŵr y Cyng. Roy Tickle a'r clerc  Jenny Barlow



Y Maer gyda'i theulu



Lesley Powell CEO,Winnie Lawson,Rheolwr Cyngor ar Bobpeth  Dinbych yn derbyn siec elusen gan y cyn Faer Catherine Jones





Y Cynghorydd Rhys Thomas,Dirprwy Faer a'i wraig Lynn



## CATH AR GOLL

"Lili" o Bryn Llys, 10 Llain y Capel, diflannodd dydd Sadwrn 11.5.19. Benywaidd. Tua 11 mis oed. Gwallt byr llwyd/brown gyda streipiau du a gên gwyn. Anifail hoffus iawn er yn ofnus o bobl ddieithr. Ffoniwch Bedwyr ar 07522265320 os oes gwybodaeth amdani, diolch



Huw Warren tud 8



David Woodfall ac isod un o'i luniau tud 8







Clwb Gosod Blodau tud 5

## RHESTR Y SWYDDOGION

**CADEIRYDD**
**- Stan Lyall 813659**

**SWYDDOG HYSBYSEBION**
Sian Jones 01745 812214
russelljones9 @talktalk.net

**GOLYGYDDION:**
John Davies (812239)
Erfyl Williams (814832)
Ceredig Gwynn (815701)
Angharad Rhys (813259)
Dyfrig Berry (814362)
Morgan Cordiner (815149)

**YSGRIFENNYDD**
Bedwyr Griffiths
ebost:
ed321@btinternet.com

**TRYSORYDD**
John Geraint Jones
18 Llys Marchell, Dinbych
LL16 4AR
01745 817485

**CARTWNYDD**
Huw Vaughan Jones

**DOSBARTHWYR**
Llifon Jones (814677)
Dafydd Williams (813065)

**TEIPYDDION:**
Rhian Williams (816251)
Sian Rogers (813368)
Gwenan Ellis (813106)

**Ebost y Bigwn:**
ybigwn@hotmail.co.uk

Cyhoeddwyd gan:
Gymdeithas y Bigwn
Cysodwyd gan Hywel Evans
ac Argraffwyd gan
Wasg Helygain

# Gair gan y Golygydd

Yn ei lyfr 'Croesi'r Traeth' mae gan y diweddar Athro Gwyn Thomas gerdd o'r enw "Y Ci Tu Hwnt i Angau" sy'n sôn amdano'n recordio'r Athro Alun Llywelyn Williams yn llefaru rhai o'i gerddi "A dyna'r llais wedi ei gloi i'r dyfodol". Wrth recordio mae Mot, y ci yn y teitl, yn cyfarth yn y cefndir ac "ymhen tipyn ar ôl hynny bu farw'r hen gi". Erbyn heddiw mae'r ddau athro hefyd wedi'n gadael ond mae'r tâp yna, a wnaed ganddynt rywbryd yn y 1970egau,yn gofnod o leisiau'r ddau ac "wedi eu cloi i'r dyfodol". Daeth y gerdd i'm cof yn ddiweddar gan i recordiad a wnaethpwyd yn 2007 o nhad a mam yn siarad am wyliau gael ei chwarae ar raglen "Cofio" John Hardy ar Radio Cymru. Ac yng ngeiriau Gwyn Thomas "O'i droi daw o'r tâp y marw'n fyw" ac roeddem fel teulu, wrth wrando ar y rhaglen, yn gallu eu cofio yng Nghaeronwy fel roedden nhw'n siarad trwy'i gilydd yn hwyliog cyn i salwch a henaint ddiffodd y fflam. Mae gennym gannoedd o luniau ohonynt wrth gwrs ar hyd yr oesau ond dim recordiad o'u lleisiau ac roedd clywed y pwt yn deimlad rhyfedd iawn.

Erbyn heddiw wrth gwrs mae ffonau symudol mor gyfleus a phobl yn gallu recordio, neu ffilmio, popeth ar gof a chadw. Mae rhai mor brysur yn "dal y foment" fel rhaid gofyn a ydynt yn mwynhau'r digwyddiad yn fyw, neu dim ond drwy lens? Er mor handi a chlyfar yw'r dechnoleg erbyn heddiw mae'n cael ei gamddefnyddio fel pob dim arall. Mae pob sylw neu lun neu ffilm ar Twitter, Facebook, Instagram ac ati yno i'r byd mawr rythu arnoch chi a'ch beirniadu am byth. Neu i'ch dwyn i gyfri (gobeithio) fel yn achos rhai o wleidyddion y byd.

Ond a dod yn ôl at y testun, dyna ddifyr oedd darllen am y Phonograff yn erthygl Gwefr Heb Wifrau ac ystyried cymaint o ddatblygiad sydd wedi bod yn y maes mewn canrif. Roedd recordio yn rhywbeth elitaidd iawn bryd hynny a dim ond y lleisiau opera a chlasurol ar y cyfan oedd yn cael eu cadw. Bellach gallwn recordio unrhywun a bum i ac aelodau eraill o Gwiltwyr Dyffryn Clwyd yn recordio rhai o'n haelodau yn siarad am gwiltio ac am un cwilt arbennig o'u heiddo. Mor braf oedd cael gwneud hynny a chael llais a llun i bob un a chloi'r lleisiau i'r dyfodol.

Lleisiau eraill sydd yn y rhifyn hwn ydy hanes Lleisiau'r Nant sydd yn cyrraedd carreg filltir arbennig eleni - 30 o flynyddoedd ar y llwyfan cenedlaethol. Mi gychwynnodd y côr yn Eisteddfod Dyffryn Conwy 1989 a dyma ni'n ymarfer a pharatoi ar gyfer Eisteddfod 2019. Mae llawer o'r aelodau gwreiddiol yn famau, ac efallai'n neiniau(!) i rai o aelodau eleni ond mae Leah yn dal i fedru tynnu'r gorau allan ohonom a gobeithio y bydd sawl recordiad ohonom yn canu (a dathlu?) yn Llanrwst eleni.

Angharad Rhys

## Clwb Y Parc

## Tair noson yn Efrog 17 –20 Hydref 2019

Tair noson yn y Best Western, Burn yn cynnwys bws, gwely, brecwast a phryd gyda'r nos
£199.00
Os hoffech ymuno,cysylltwch â:
John Howatson
01745 813054
John Geraint
01745 817485
Bydd unrhyw elw yn mynd at Apêl Dinbych Eisteddfod yr Urdd 2020

## BAG Y BIGWN

**Diolch yn fawr am eich cefnogaeth**

| | |
|---|---|
| Clwb Gosod Blodau | £25.00 |
| Janice Jones, Lôn Tywysog | £10.00 |
| Margherita Jones | £10.00 |
| Di enw | £10.00 |

**Diolch am eich cefnogaeth**

**Golygydd Mis Gorffennaf: Berwyn Roberts**

Ariennir gan
**Lywodraeth Cymru**

# Y Capeli

## Capel Brwcws

Nos Iau Cablyd yng Nghapel Gellifor cafwyd gwasanaeth arbennig iawn. Pwy all anghofio rhai o gantorion y fro yn cyflwyno ‘ Teilwng yw’r Oen’ ar ffurf ‘Flash Mob’?

Yn blygeiniol fore heulog Sul y Pasg cynhaliwyd gwasanaeth Cytûn Dinbych, ger porth y Castell, dan ofal y Parch. Nesta Davies.

Yng Nghapel Gellifor am 10yb bu Oedfa Gymun y Fro dan arweiniad ein gweinidog y Parch. Andras Iago.

Dydd Sul, Ebrill 28ain croesawyd ein gweinidog atom i oedfa'r prynhawn. Eleanor Roberts oedd wrth yr organ. Cydymdeimlwyd â Gwenda Jones yn dilyn marwolaeth ei chwaer, Glenys Smith o Brestatyn.

Nos Fawrth, Ebrill 30ain yn y Capel Mawr cawsom noson wedi ei threfnu gan Chwiorydd Henaduriaeth Dyffryn Clwyd. Y wraig wadd oedd Llinos Roberts, Trefor yn sôn am ei gwaith gyda Chymorth Cristnogol.

Croesawyd y Parch Geraint Roberts am y tro cyntaf i’r Brwcws y prynhawn Sul cyntaf o fis Mai. Carolyn Thomas oedd yr organydd.

Nos Wener, Mai 10fed yng Nghapel Trefnant cafwyd noson i wobrwyo plant yr Ysgol Sul am eu gwaith cywaith. Y thema eleni oedd ‘Myfi Yw’. Dewis Ysgol Sul y Brwcws oedd ‘Myfi yw’r Goleuni’. Llongyfarchiadau i Cari a George Cattell, Magi a Gwen Davies. Mari a Beca Edwards, Arthur. Flora a Henry Jones, Cai, Rhys a Mared Jones a Cadi Roberts.

Rhian, Cari a George Cattell fu’n agor yr Ysgol Sul ddydd Sul, Mai 12fed. Cawsom hanes yr Iesu yn dweud ‘ Myfi yw y Giât’. Dewi Williams, Llannefydd oedd yn pregethu yn y prynhawn. Eleanor Roberts oedd wrth yr offeryn.

Nos Fawrth, Mai 14eg yn y Capel Mawr cynhaliwyd cyfarfod i ddiolch i’r Parch. Nesta Davies am ei gwaith yn y Fro wrth i’w chyfnod fel Cynorthwyydd Gweinidogaethol ddod i ben.

Cawsom noson ddiddorol ac addysgiadaol nos Fercher, Mai 15fed yng Nghymdeithas Chwiorydd y Fron a’r Brwcws pan gawsom gwmni Noriko Vernon, Llansannan gyda ‘Hanes a Thraddodiadau Siapan’. Bu Gwenda Jones yn modelu’r ‘kimono’ ar ein rhan. Dilys Davies fu’n arwain y noson a hefyd yn talu y diolchiadau. Lis, Edith a Rhianwen fu’n gyfrifol am y baned.

Oedfa Cymun o dan ofal y Parch. Andras Iago a gynhaliwyd brynhawn Sul, Mai 19eg. Bryan Roberts oedd wrth yr organ. Yr un pnawn, aeth rhai o blant yr Ysgol Sul i Llanrhaeadr i fwynhau ‘Picnic yn y Parc’. Bu Cari a George yng Ngholeg y Bala am y penwythnos i ymuno â ‘Miri Mawr’.

## Capel y Fron

Nos Sul, Ebrill 14eg fe wnaeth Richard Snelson estyn croeso i’r Parch Dewi Morris atom. Yr organydd oedd Eiri Jones. Yn y prynhawn, roedd cyfle i ni fynd fyny i’r Capel Mawr i wrando ar Gôr Synod Mizoram o Ogledd Ddwyrain India. Wedi i’r Parch Andras Iago estyn croeso iddynt fe gawsom ein gwefreiddio yn gwrando arnynt yn canu yn eu hiaith frodorol ac yn arbennig yn yr iaith Gymraeg yn canu ‘Diolch i ti yr Hollalluog Dduw’ i gloi’r gwasanaeth.

Nos Iau Cablyd yr oedd chwiorydd Capel Gellifor wedi trefnu rhaglen, gydag aelodau o’r gwahanol gapeli’r Fro wedi ffurfio Côr. Fe wnaethant argraff gofiadwy ar y gynulleidfa trwy ganu ‘Teilwng yw’r Oen’. Gwasanaeth bendithiol iawn ac fe weinyddwyd y cymun Sanctaidd gan y Parch Andras Iago.

Bore Gwener y Groglith yr oedd oedfa Gymun eto dan ofal ein Bugail.

Dydd Sul y Pasg - Yn y bore am 7 o’r gloch, fe wnaeth y Parch Nesta Davies drefnu gwasanaeth ar godiad yr haul ger muriau’r Castell. Yr oedd hefyd wedi trefnu paned i bawb oedd wedi mentro allan yn Festri Capel Mawr. Yr oedd yr oedfa yma dan nawdd Pwyllgor Cytûn Dinbych. Ymlaen wedyn erbyn 10 i Oedfa’r Fro yng Nghapel Gellifor. Roedd yr oedfa yma yng ngofal y Parch Andras Iago. Yr oedd chwiorydd Gellifor wedi gofalu fod yna gyfle i bawb fwynhau cymdeithasu dros baned ar fuarth y Capel yn yr haul.

Bore Sul, Ebrill 28ain yr oedd yr oedfa yma yn y Fron dan ofal ein Bugail a’r organydd oedd Iona Edwards.

Nos Sul cafwyd pregeth gan y Parch Geraint Roberts ac fe wnaeth Gaynor Prew estyn croeso iddo a hefyd fe wnaeth estyn croeso yn ôl at yr organ i Megan Williams wedi rhai misoedd o anhwyldeb.

<u>Cymorth Cristnogol</u>

Yr oedd y gwasanaeth undebol bore Sul, Mai 12fed gyda ni a'r Llywydd oedd Gaynor Prew. Cymerwyd rhan gan aelodau o Eglwysi’r dre ac fe gawsom anerchiad gan Mr Dewi Williams, Llannefydd. Yr organydd oedd Iona Edwards. Yr oedd y trefniadau i gyd wedi eu paratoi gan Cheryl Williams.

<u>Y Parch Nesta Davies</u>

Gair o ddiolch i’r Parch Nesta Davies am ei gwaith dros y blynyddoedd. Yr oedd bob amser yn barod ei chymwynas ac yn ymweld â’r cleifion adre, yn yr ysbytai a’r cartrefi gofal. Yr oedd yn gefnogol i’r holl waith o fewn yr Eglwys. Pob bendith i chi Nesta ac eto llawer o ddiolch am eich cyfeillgarwch a’ch hynawsedd a chofiwch alw heibio i’n gweld.

Nos Sul, Mai 9fed, cawsom gwmni ein Bugail, Y Parch Andras Iago. Yr organydd oedd Megan Williams. Yr ydym yn cydymdeimlo â Mr Tom Prytherch sydd wedi colli ei frawd yn Ne Affrica a Mrs Alwena Jones wedi colli perthynas agos. Anfonwn ein cofion at Margaret McCall sydd wedi treulio peth amser yn Ysbyty Glan Clwyd ond sydd yn Ysbyty Rhuthun rŵan a hefyd mae Beti Jones wedi derbyn triniaeth yn Ysbyty Glan Clwyd. Brysiwch wella.


Criw Ffrindiau Tŷ Gobaith Rhuthun a’r Cylch

**Nos Sul, 7 Gorffennaf 2019 7.30 yh**

**Capel y Tabernacl, Rhuthun**

**CYNGERDD COFFA**

Er côf am Glenys Jones *(Cyn Gadeirydd)*

YNG NGHWMNI:

Côr Rhuthun a’r Cylch

Parch Robert Parry, Wrexham *(Organydd)*

Disgyblion Canolfan Cerdd William Mathias

Tocynnau: £8 oedolion Plant oed ysgol: £2

## Y CAPEL MAWR A SEION

Bu inni golli aelod arall yn ddiweddar gyda marwolaeth Miss Morfydd Lloyd Roberts ar Fai 1af yn 93 mlwydd oed.Roedd hi ers peth amser wedi ymgartrefu yng Nghartref Bryn yr Eglwys, Pentrefoelas, ar ôl treulio blynyddoedd lawer yn byw yn Arwel, Ffordd Rhuthun.Un a dreuliodd ei bywyd ym myd nyrsio oedd Miss Roberts gan ddod yn "sister" uchel ei pharch yn Ysbyty H.M. Stanley, Llanelwy. Roedd Y Capel Mawr â rhan flaenllaw yn ei bywyd, a mynychodd yr oedfaon yn ffyddlon hyd i flinder a llesgedd ei llethu. Bu'i hangladd ar Fai 10fed yn Amlosgfa Llanelwy. Cydymdeimlwn â'i theulu a'i chyfeillion yn eu galar.
O ran oedfaon, cafwyd cwmni'r Gweinidog ar nos Sul, Ebrill 28ain, gyda Mrs Catrin Warren yn cyfeilio, ac ar fore'r pumed o Fai croesawyd y Parch. Geraint Roberts, Llandegfan, atom gan Mrs Cheryl Williams, llywydd y mis. Mrs Dorothy Rogers oedd wrth yr organ. Mr Dewi Williams, Llannefydd, oedd y cennad y nos Sul ganlynol gyda Mrs Catrin Warren yn cyfeilio.
Gweinyddwyd y sacrament o Swper yr Arglwydd gan y Gweinidog ar fore Sul, Mai 19eg. Croesawyd ef gan Mrs Cheryl Williams, llywydd y mis, a Mrs Dorothy Rogers oedd wrth yr organ.

"Cefnogwch Hysbysebwyr Y Bigwn"

# Y Cymdeithasau

## Clwb Gosod Blodau

Croesawodd Felicity bawb i'r noson a chyflwynodd ein harddangoswraig, sef Jacqui Cooper o Whitechurch. Ei thema oedd Dewis a Chymysgu (Pick 'n Mix).
Gwnaed y trefniant cyntaf ar ddysgl wydr wastad heb botyn dal dŵr ond weiren wedi ei throelli'n y dŵr a gerbas a Chegiden fenyw (cow parsley) wedi eu gweithio drwyddi.
Cynhwysydd crwn gyda mwsog o'i amgylch a ddewiswyd i wneud yr ail osodiad gyda sbrigau cywion gwyddau tal, Chinchri gwynion, Lilïau arum a Rhosod gwynion - roedd y potyn dŵr hefyd wedi ei orchuddio â mwsog.
Dyluniad oren y gallai ei weld drwy ei ffenestr oedd y trydydd gosodiad gyda sbrigau bedw, pennau Sgabia sych, Rhosod pinc, Ffresias a Charnasiwns oren. Hyfryd.
Fâs dal i gynrychioli cerflun ddefnyddiwyd ar gyfer y pedwerydd un, dail eiddew mawr, dail Ffatsia, Anastasia sylweddol, Ffarwel haf, weiren frown droellog a sbrigiau gwyrdd a melyn o Ffarwel Haf.
Ei gosodiad olaf oedd mewn bocs du, dail Ffatsia, dail palmwydd, Delphiniwm glas, Ffarwel Haf gwyrdd, Rhosod cochlas golau, Carnasiwn oren ac roedd yna ddau osodiad ychwanegol – "Prydferthwch blodau" ac adroddodd ddarn o farddoniaeth a fwynhawyd yn fawr.
Diolchwyd i bawb gan Sylvia. Bydd ein cyfarfod nesaf yn Theatr Twm o'r Nant ar Fehefin 6ed. Yr arddangoswr fydd Mark Entwhistle o Sandbach.
Margherita Jones
Lluniau tudalen 2

## Cymdeithas Chwiorydd y Fron a'r Brwcws

Noriko Vernon, Llansannan oedd ein gwraig wadd nos Fercher, 15fed o fis Mai. Testun ei sgwrs oedd 'Hanes a Thraddodiadau Siapan'. Cawsom wefr o weld Noriko yn dod i mewn yn gwisgo 'kimono' hardd a wnaed gan ei mam.
Ganwyd Noriko yn Hiratsuka City, Siapan. Aeth i Lundain ar ôl bod yn y Brifysgol ac yno y cyfarfu â Richard Vernon, bachgen o Ynys Môn. Roedd Richard eisiau dychwelyd i Gymru ac mewn amser prynwyd Capel Hiraethog, Llansannan. Cyn ei droi yn dŷ, bu iddynt gael gwasanaeth i fendithio eu priodas a chawsom weld y lluniau hyfryd. Erbyn hyn, mae Noriko yn rhugl yn y Gymraeg. Mae gan Richard a Noriko ddau o fechgyn Gwynfor a Cai ac mae'r teulu yn siarad y dair iaith sef Siapaneg, Cymraeg a Saesneg.
Cawsom hanes magwraeth Noriko yn Siapan. Eglurodd sut oedd gwisgo'r 'kimono' sef gwisg draddodiadol Siapan. Cafodd Gwenda Jones ei gwisgo mewn 'kimono'. Roedd Noriko a hithau yn ddigon o sioe. Cawsom wers ar sut oedd gwneud 'sushi' ac roedd wedi dod â sampl i ni brofi. Daeth Noriko hefyd ac esiamplau o 'origami', un arall o draddodiadau ei gwlad, y ddawn o blygu papur, i ni ei weld. Cawsom i gyd aderyn papur i'w gadw. Bydd yn atgof am noson arbennig iawn. Dilys Davies, ein Llywydd, fu'n arwain y noson a hithau fu'n talu'r diolchiadau. Lis, Edith a Rhianwen fu'n gyfrifol am y baned.



## Gŵyl Ganol Haf Dinbych

Trwy fis Mehefin bydd digwyddiadau amrywiol yn cael eu cynnal yn y dref. Mae sawl grŵp gwirfoddol yn cynnal gweithgareddau yma trwy gydol y flwyddyn. Mae'r ŵyl hon yn un o'r uchafbwyntiau. Dyma restr o'r digwyddiadau ond am fwy o fanylion mae llyfryn ar gael o'r Llyfrgell:

| | |
|---|---|
| 1 Sad: | Bore Coffi Gwefr Heb Wifrau |
| 5 Mer: | Ffilm hynafol 'The Prime of Miss Jean Brodie' |
| 6 Iau: | Cyfarfod Agored Celf Flodeuol Dinbych |
| 7 Gwe: | The Lighted Stage Originals yn fyw |
| 8 Sad: | Criw The Princes Retinue – Ailgreu Bywyd canoloesol |
| | Cardiau unigryw wedi'u hailgychu |
| | Te Prynhawn Haf |
| | Clwb Criced Dinbych – Dawns Pen-blwydd 175 |
| 9 Sul: | Criw The Princes Retinue – Ailgreu Bywyd canoloesol |
| 11 Maw: | Taith gyda'r nos o gwmpas Muriau a Chastell Dinbych |
| | Noson Cwis |
| 12 Mer: | Twrnameint Boules |
| | NGS Gerddi Agored – Clwydfryn |
| 13 Iau: | Cystadleuaeth Goginio Gŵyl Haf Dinbych |
| | Sgwrs Fforwm Treftadaeth Gogledd Ddwyrain Cymru |
| 14 Gwe: | Ffilm 'Capricorn One' |
| | Noson gyda Tri Gog a Hwntw |
| 15 Sad: | Diwrnod Agored Gwefr Heb Wifrau |
| | Cyngerdd lansio sengl Martyn Peters |
| 16 Sul: | Sioe Gŵn Hwyl i'r Teulu |
| | Gardd Agored a Stondin Gwerthu Planhigion |
| 17 Llun: | Taith gerdded dywysedig yn y dref |
| 19 Mer: | Noson ffilm 'Stan and Ollie' |
| 20 Iau: | Helfa Sborion |
| | Lansiad Llyfr: Rewilding in Britain and Ireland |
| 21 Gwe: | Sgwrs 'Cymry Lerpwl' |
| 22 Sad: | Carnifal Dinbych |
| | Ioga Castell Dinbych gyda Sadie |
| 23 Sul: | Triathlon Dinbych |
| | NGS Gerddi Agored – Gwaenynog |

## GŴYL RHUTHUN 2019
## TOP DRE

**Dydd Sadwrn – 29ain o Fehefin**

1.00y.p. – 8y.h.

**Sgwâr San Pedr**

Bryn Fôn a'r Band

Candelas

Skariad

Bwncath

Band Chwech

Band Pres Ieuenctid Sir Ddinbych

Côr y Porthmyn

Côr Ysgol Pen Barras

a llawer mwy

Mynediad - £5

**RHYBUDD**

Oherwydd rheolau newydd ynglŷn â phreifatrwydd data personol, rydym yn gwneud rhai newidiadau i'r ffordd mae **Y Bigwn** yn casglu gwybodaeth a newyddion a'u cadw.

**Gofynnwn i ohebwyr, cyfranwyr, clybiau, grwpiau ac ysgolion ddatgan eu bod:-**

wedi sicrhau caniatâd rhiant neu ofalwr pob plentyn dan 13 i gynnwys gwybodaeth amdanynt neu luniau ohonynt wrth anfon pob adroddiad i'r **Bigwn**

wedi sicrhau caniatâd bob unigolyn dros 13 i gynnwys gwybodaeth amdanynt neu luniau ohonynt wrth ddanfon pob adroddiad i'r **Bigwn**.

Ni dderbynnir unrhyw newyddion personol/lluniau am blentyn ond oddi wrth riant neu ofalwr y plentyn hwnnw.

**Felly wrth ddanfon eich newyddion neu luniau i'r Bigwn, cofiwch eich bod wedi gwneud yr uchod a chynnwys y datganiad canlynol gyda'ch newyddion a'ch lluniau:**

Rydym yn datgan ein bod wedi sicrhau caniatâd rhiant neu ofalwyr pob plentyn dan 13 a gynhwysir yn yr adroddiad/lluniau atodedig ar gyfer eu cyhoeddi yn **YBigwn**, yn ogystal â chaniatâd pob unigolyn dros 13 a gynhwysir.

Diolch am eich cydweithrediad a'ch cefnogaeth gyda hyn


Emyr Evans a'i Gwmni Cyf

Uned 9, Stad ddiwydiannol Colomendy,
Dinbych 01745 812333




Stad Ddiwydiannol
Gaerwen
01248 421900

Darnau ar gael ar gyfer pob math o beiriannau fferm, Pibellau Hydrolic, Olew a Gwrthrew
e-bost:info@emyrevans.co.uk

Garej Ffowndri

Am wasanaeth cyflawn i'ch modur



01745 812482

## Cyfarfod Blynyddol Cyngor Tref Dinbych

Gweddïau: Agorwyd y cyfarfod trwy weddi gan Gaplan y Maer am y noson, Norma Rowles.

Adroddiad Blynyddol y Maer: Cyflwynodd y Maer, y Cyng Catherine Jones, adolygiad o'r flwyddyn ddinesig 2018 / 2019 gan gyfeirio at uchafbwyntiau'r prif ddigwyddiadau oedd wedi cymryd lle. Hefyd cyflwynodd y Maer ei 3 elusennau a ddewiswyd - CAB Sir Ddinbych, Gwasanaeth Ambiwlans Dinbych (diwygiwyd i Ymatebwyr Cyntaf Dinbych) ac Infirmary Dinbych - Ward Macmillan gyda siec am £402.82 yr un.

Ethol Maer: Cynigodd y Cyng Glenn Swingler, eiliwyd gan y Cyng Rhys Thomas, a phenderfynwyd fod y Cyng Gaynor Wood-Tickle yn cael ei hethol yn Faer am y Flwyddyn Ddinesig 2019 / 2020. Darllenodd ac arwyddodd y Cyng Gaynor Wood-Tickle y Datganiad Statudol yn Derbyn y Swydd ym mhresenoldeb y Cofiadur Anrhydeddus Barnwr Michael Baker, y Cynigydd a'r Eilydd.

Cyflwynodd y Cyng Catherine Jones Gadwyn y Swydd i'r Cyng Gaynor Wood-Tickle. Cyflwynodd y Faeres ymddeol Mrs Nicola McIntyre, Gadwyn Swydd Cymar i'r Cyng Roy Tickle.

Cyflwyniad: Cyflwynodd y Maer, Blac Dinesig a Bathodyn Cyn Faer i'r Cyng Catherine Jones i gofio am ei blwyddyn yn y swydd. Cyflwynodd y Maer, Fathodyn Dinesig i Mrs Nicola McIntyre i gofio am ei blwyddyn yn y swydd.

Pleidlais o Ddiolch: Cynigodd y Cyng Gaynor Wood-Tickle bleidlais o ddiolch i'r Cyng Catherine Jones am y modd yr oedd hi wedi cyflawni ei dyletswyddau yn ystod y flwyddyn 2018 / 2019.

Adroddiad y Maer: Diolchodd y Maer newydd i'w Chynigydd a'i Eilydd ac yna anerchodd y cyfarfod.

Ethol Dirprwy Faer: Cynigodd y Cyng Glenn Swingler, eiliwyd gan y Cyng Guto Lloyd- Davies a phenderfynwyd fod y Cyng Rhys Thomas yn cael ei ethol yn Ddirprwy Faer am y Flwyddyn Ddinesig 2019 /2020. Darllenodd ac arwyddodd y Cyng Rhys Thomas Ddatganiad yn Derbyn Swydd ym mhresenoldeb y Cofiadur Anrhydeddus Barnwr Michael Baker, y Cynigydd a'r Eilydd. Cyflwynodd y Maer Gadwyn y Swydd i'r Cyng Rhys Thomas.

Cyflwynodd y Maer Gadwyn y Dirprwy Faeres i Mrs Lynn Thomas.

Adroddiad Presenoldeb Cynghorwyr am y flwyddyn 2018 / 2019: Cyfeiriodd y Maer at bresenoldeb blwyddyn fwrdeistrefol 2018 / 2019. Roedd dau gynghorydd sef y Cyng Catherine Jones & Roy Tickle wedi llwyddo ar bresenoldeb 100%. Mabwysiadwyd yr adroddiad presenoldeb.

Penodi Caplan y Maer: Penododd Y Parchedig Ganon Pauline Walker yn Gaplan am y Flwyddyn Ddinesig 2019 / 2020.

Gwasanaeth Dinesig: Datganodd y Maer y byddai'r Gwasanaeth Dinesig yn Eglwys Y Santes Fair Dinbych, Dydd Sul 7fed o Orffennaf am 3 o'r gloch y prynhawn.

Y Fendith: i ddod â'r gweithgareddau i ben, traddodwyd y Fendith gan Gaplan y Maer am y noson, Norma Rowles.

Caeodd y Maer y cyfarfod am 7.45pm.

**Gwelliannau Cartref DBP G.Cymru**

DBP Home Improvements N.Wales

**Tŷ DBP**
**Stad Ddiwydiannol Colomendy**
**Dinbych.**
**Ffôn: Mike Hargraves ar 01745 815555**
**Symudol: 07778752822**

**Dewch am baned ac i weld yr ystafelloedd arddangos newydd, modern a chyfoes.**




**Diolch i'n cwsmeriaid am eu cefnogaeth dros y blynyddoedd ac edrychwn ymlaen at gyfarfod cwsmeriaid hen a newydd.**

**Ffenestri U-PVC, Unedau wedi'u selio, Drysau, Ystafelloedd Gwydr, Portshys, Cynnyrch Roofline, Systemau Bargod Sych, Toeau Firestone a Guardian.**

# JAZZ, FFOTOGRAFFIAETH, LLYFR A THRAFODAETH.

Ydych chi'n hoffi jazz, yn enwedig jazz ar y piano? Neu beth am ffotograffiaeth, yn enwedig ffotograffiaeth byd natur? Os felly, beth am wneud nodyn yn eich dyddiadur a mynd i Neuadd y Farchnad Dinbych ar nos Iau, Mehefin 20fed am 7.30 (gyda'r drysau'n agor am 7.00) am awr ac ugain munud o luniau gan David Woodfall a cherddoriaeth gan Huw Warren?

Yn enedigol o Abertawe, mae David wedi byw yn Ninbych ers 1989, ac wedi gwneud enw iddo'i hun fel ffotograffydd blaenllaw sydd wedi ennill sawl gwobr rhyngwladol am ei waith hynod ym myd natur a'r amgylchedd. Un o Abertawe ydy Huw hefyd, ac wedi byw yn Eryri ers 1983. Fel David, mae Huw'n cael ei gydnabod fel un o'r artistiaid mwyaf blaenllaw a meistrolgar yn ei faes.

Fe gynhelir y noson arbennig hon fel rhan o lansio swyddogol llyfr newydd David, sef "Rewilding: Real Life Stories of Returning British and Irish Wildlife to Balance".

Beth yn union ydy "Rewilding" felly? Rhaid cyfaddef fod gen i fawr o syniad tan yn ddiweddar, ond y termau Cymraeg sy'n cael eu defnyddio yw "Di-ddofi" ac "Ailwylltio". Fel y gallwch ddychmygu, mae'r cysyniad hwn o ganiatáu i natur ddilyn ei gwrs yn un dadleuol iawn, yn enwedig o fewn y gymuned amaethyddol. Yn ei lyfr, mae'r awdur wedi cynnwys cyfraniadau gan dros hanner cant o bobl: ffermwyr, beirdd, cerddorion, gwyddonwyr, cadwraethwyr a rheolwyr tir, sef croesdoriad o'r boblogaeth gyda gwahanol safbwyntiau a phrofiadau ar y pwnc.

Drwy rhoi llais cyfartal i'r holl safbwyntiau gwahanol hyn, bwriad yr awdur yw ychwanegu at y ddadl.

Yn dilyn y cyngerdd, gyda cherddoriaeth wedi ei gyfansoddi'n benodol at yr achlysur gan Huw Warren, bydd cyfle i drafod y pwnc gyda phanel fydd yn cynnwys yr awdur a nifer o'r cyfranwyr i'r llyfr. Os am ddatgan eich barn, dyma eich cyfle!

Ar derfyn y noson fe fydd David yn llofnodi copïau o'i lyfr.

Pris mynediad fydd £6.00 i oedolion a £5.00 i blant dan 18 oed a'r di-waith.

Lluniau tud 2






Gwefr heb Wifrau

# AMGUEDDFA RADIO

Dilynwch ni ar







Mae nifer o recordiau 78RPM Cymraeg o'r 1930-40au yn y casgliad hefyd, gan gynnwys David Lloyd yn canu Aberystwyth, fel y gwelir yn y llun, a Jac a Wil yn canu 'O Dwed wrth Mam rwy'n dyfod' ar label Gymraeg Qualiton.

Roedd cyffro mawr yn yr Amgueddfa yn ddiweddar wrth i ni dderbyn ar fenthyg un o'r arddangosion prinaf erioed, sef Phonograph Idelia Edison, rhif 65794, o 1908. Cynhyrchwyd llai na 500 ohonynt ac mae'n bosib bod hwn yn un o'r rhai prin sydd ar ôl yn ei ffurf wreiddiol. Mae ganddo gorn 'cygnet' mahogani a stylus saffir, nid dur. Mae'n chwarae silindrau Amberol Edison dau funud a phedwar munud ac mae tua 70 ohonynt yn y casgliad a roddwyd ar fenthyg i ni, yn cynnwys 'The Trail of the Lonesome Pine' gan Romain – gweler y llun.




Mae Martyn wedi llwyddo i gael y Phonograph i weithio ac rydym wedi darganfod cwmni yn UDA sy'n medru cyflenwi tiwb rhwber newydd i gysylltu'r corn â'r Phonograph.




Sue Clark

"Golygu a Thrin Ffotograffiaeth" oedd testun Sue Clark pan ddaeth i sgwrsio efo ni yn ystod mis Mai. Cyfeiriodd at yr ymadrodd, "Dydy'r camera byth yn dweud celwydd", ond erbyn diwedd y noson, roeddem i gyd o'r farn nad yw'n bosib credu yr hyn a welwn mewn ffotograff. Roedd ganddi nifer o luniau i'w dangos i ni, gan gynnwys y ffotograff cyntaf i gael ei newid, neu ei 'olygu', erioed, yn 1846. Ers hynny, defnyddiwyd nifer o wahanol ffyrdd o olygu a thrin ffotograffau. Un o'r dulliau cyntaf oedd peintio'r negatif cyn argraffu, ac felly roedd hi'n bosib ychwanegu pethau at y llun gwreiddiol. Arweiniodd hyn at nifer o straeon am ysbrydion, ac hyd yn oed am anghenfil mewn llyn yn yr Alban. Roedd hi hefyd yn bosib i ddileu rhywbeth, fel sigarét yn llaw Paul McCartney, neu i newid rhywbeth yn y ffotograff gwreiddiol trwy beintio. Yn ystod y cyfnod Fictoriaidd pan oedd pobl yn anfodlon gyda'r portread a dynnwyd ohonynt gan y ffotograffydd, roedd 'retouchist' wrth law i wella'r lluniau.

Dull arall o olygu ffotograffau oedd tynnu mwy nag un llun a'u cyfuno; enghraifft nodedig oedd llun 'The two ways of life' a grewyd o 32 negatif dros chwe wythnos. Arweiniodd hyn at greu ffotograffau cyfansawdd, trwy dorri lluniau a'u gosod at ei gilydd a chreu collage. Roedd hon yn ffordd ddefnyddiol o greu llun o dyrfa o bobl, megys myfyrwyr coleg. Roedd hefyd yn ffordd dda o gynhyrchu propaganda a chynhyrchwyd llawer o montages dychanol rhwng y ddau ryfel byd.

Meddalwedd ar gyfrifiadur sy'n gyfrifol am olygu ffotograffau erbyn heddiw, ac mae'n cael ei defnyddio yn eang ac yn llwyddiannus iawn, yn aml gyda chanlyniadau annisgwyl, difrifol iawn ymhlith yr ifanc wrth iddyn nhw weld cyrff gor-denau eu harwyr. Ydy wir, mae'r camera yn gallu dweud celwydd!

Croeso cynnes i bawb i'n digwyddiadau yn yr Amgueddfa yn ystod yr Ŵyl Ganol Haf:
11/06/19, Noson Gwis, 19.00 – 21.00.
15/06/19, Diwrnod Technegol Ymarferol i Deuluoedd, 11.00-15.00.
21/06/19, darlith gan Mike Farnworth ar "Y Cymry yn Lerpwl", 19.00.

MODURON Y GRAIG
Gorsaf Profion M.O.T.
(dosbarthiadau 3,4 a 7)
Atgyweirio ceir a thractorau
Iard y Graig, Ffordd y Graig,
Ffôn:01745 815606
550337 / 550512(cartref)

CYFREITHWYR SOLICITORS
GUTHRIE JONES & JONES
Osian Roberts LLB . Gwenllian Huws LLB . Lois Griffiths LLB LLM
29 FFORDD RHUTHUN, DINBYCH LL16 3EH
Ffôn : 01745 814 817 E-bost: dinbych@guthriejj.co.uk
Gwefan: www.guthriejj.co.uk
Gwasanaeth Cyfreithiol cyflawn yn y Gymraeg

# GAIR O WERTHFAWROGIAD MRS GWYNETH ROBERTS

I genhedlaeth o blant Dinbych hi oedd yr athrawes a wnaeth ein paratoi ni ar gyfer yr ysgol uwchradd- o ran gwaith, disgwyliadau a safonau. O'r herwydd mae ein dyled a'n diolch iddi yn enfawr.

I mi, a channoedd eraill, roedd hi'n ffigwr o awdurdod yn Ysgol Twm o'r Nant. Wrth symud o'r babanod i'r cynradd daeth ei henw yn un amlwg i ni a byddem ni'n clywed y disgyblion hŷn yn sôn amdani, ei disgwyliadau uchel a'i rheolau llym. Roedd y gwaith yn galed iawn, medden nhw.

Doedd dim hawl i siarad yn y dosbarth, medden nhw. Roedd hi'n gallu eich rhwystro rhag symud 'mlaen i Glan Clwyd, medden nhw. Heb amheuaeth roedd gennym ni ei hofn... nes i ni gyrraedd ei dosbarth, hynny yw!

Unwaith i ni ddod o dan ei hadain ym mlwyddyn 6 trodd yr ofn hwnnw'n barch ac edmygedd, ac wrth gwrs mi ddeallom ni nad oedd yna unrhyw wirionedd yn straeon y disgyblion a aeth o'n blaenau ni!

O dan ei gofal hi agorwyd fy llygaid i bob math o bynciau ac i'r mwynhâd y gellid ei gael o ddysgu amdanynt. Dysgais am Batagonia, Oliver Cromwell, Y Celtiaid, H. M. Stanley, cestyll Cymru, natur, llenyddiaeth, awduron, beirdd, y gofod...

Cafodd ei brwdfrydedd hi at y pynciau eang hyn gryn argraff arna' i. Dangosodd imi bwysigrwydd cymryd diddordeb yn y newyddion a materion cyfoes, a deall yr hyn sy'n digwydd yn y byd.

Heb os, mae hynny wedi aros gyda mi ac mae'n nodwedd rydwi bellach yn ceisio ei rannu gyda'r disgyblion sydd o dan fy ngofal i.

Rhoddodd gyfleoedd di-ri i mi berfformio, cystadlu ac ysgrifennu.Cefais hyd yn oed y cyfle i chwarae pêl-rwyd- a finnau'n methu hyd yn oed dal pêl! Gwelodd hi y tu hwnt i fy sgiliau anobeithiol a rhoi'r cyfle i mi fod yn rhan o'r garfan a'r cystadlu.

O dan ei harweiniad tyfodd fy awch am ddysgu ac am wthio fy hun i'r eithaf.

Rydwi'n gwybod fy mod i'n athrawes heddiw oherwydd y profiadau a gefais o dan ei gofal hi, ac rydwi'n gwybod fy mod y math o athrawes rydw i heddiw oherwydd i mi gael y fraint o fod yn ddisgybl yn ei dosbarth hi.

Roedd hi'n ein dysgu ni i fod yn falch o'n gwaith ac anelu at fod y gorau y gallem ni fod. Llwyddodd i'n paratoi ni a rhoi digon (ond nid gormod!) o hyder i symud 'mlaen i'r ysgol uwchradd.

Dysgodd wersi pwysig i ni, gwersi moesol, gwersi bywyd. O bosib, un o'r pwysicaf oedd pan ddysgodd yr idiom 'ffrindiau tywydd braf' i ni, a phwysleisiodd i ni y pwysigrwydd o beidio â bod y math yna o berson, nac ychwaith i amgylchynu ein hunain â rhai.

Roedd hi'n bopeth yr oedd ei angen arnom ni fel athrawes ym mlwyddyn 6. Roedd hi'n ofalus ohonom ac eisiau'r gorau i ni, ond ar yr un pryd roedd hi'n ein gwthio, ein herio, ein hannog ac yn cadw ein traed ar y ddaear.

Dysgodd ni i fod yn uchelgeisiol, yn greadigol, yn ffrindiau da ac, yn bwysicach na dim, i fod yn ni ein hunain.

Rydwi'n gwybod iddi gael dylanwad arbennig arna' i ac y mae fy niolch a fy nyled yn enfawr iddi am y profiadau a'r addysg a gefais ganddi.

Catrin Lyall.

## Eisteddfod yr Urdd 2019, Caerdydd a'r Fro

Llongyfarchiadau i'r canlynol am eu llwyddiant yng nghystadlaethau Celf, Dylunio a Thechnoleg a chystadlaethau Gwaith Cartref Eisteddfod yr Urdd 2019. Gobeithio y cawn luniau o'r cynnyrch yn rhifyn nesaf y Bigwn.

Ysgol Twm o'r Nant:
Gruffudd Crowther 1af Gwaith creadigol 2D Bl 3-6 A.D.Y.
Sioned Pugh Jones 1af Gwaith creadigol 2D Tecstiliau Bl 3 a 4
Alaw Haf Jones 1af Gwaith creadigol 2D Tecstiliau Bl 5 a 6
Saffari 1af Gwaith creadigol 2D Tecstiliau Bl 5 a 6 (Grŵp)
Beca Fflur Edwards 1af Gwaith creadigol 3D Tecstiliau Bl 5 a 6
Parti Catrin Fflur 2il Gwaith creadigol 3D Tecstiliau Bl 5 a 6 (Grŵp)
Ysgol Gynradd Pant Pastynog
Ifan Ames 2il Print Monocrom Bl 3 a 4
Coleg Myddleton
Amelia Lloyd 2il Argraffu/Addurno ar Ffabrig Bl 3 a 4
Ysgol Gynradd Henllan
Grŵp Henllan Hapus 2il Creu Arteffactau Bl 2 ac iau (grŵp)
Ysgol Glan Clwyd
Chloe Baines 2il Gwaith creadigol 2D Tecstiliau Bl 7, 8 a 9
Miriam Owen 3ydd Dyluniad 2D Bl 10 a dan 19 oed
Miriam Owen 3ydd Graffeg Cyfrifiadurol Bl 10 a dan 19 oed
Mali Elwy 3ydd Rhyddiaith dan 25 oed.


# Cyngerdd Côr Godre'r Aran

## ac Unawdwyr

**Nos Sadwrn Medi 14eg am 7.30pm**
**Neuadd y Dref, Dinbych**
**Yr Elw at Elusennau Maer Dinbych**
**Tocynnau £10.00**
**Ar gael o – Siop Clwyd, Dinbych,**
**Siop Siocled Dinbych,**
**Siop Elfair Rhuthun,**




## Atebion Mai 2019

**Ar Draws :**
9. Anagram
10. Moelyci
11. Darluniwr
12. Anaml
13. Afanc
15. Cymdeithas
18. Ronaldo
19. Trwstan
21. Garibaldi
24. Go lew
25. Caseg
27. Teipiadur
29. Unigryw
30. A Tobago

**I Lawr :**
1. Paediatreg
2. Saer maen
3. Brau
4. Ymbincio
5. Amgrwm
6. Beca
7. Cyfarth
8. Niwl
14. Caleb
16. Enwog
17. Synhwyrlon
19. Trinidad
20. Telediad
22. Rysait
23. Litmws
25. Clud
26. Garw
28. Isod

Ymddiheuriad: Os y llwyddoch chi i gwblhau croesair mis Mai yn ddi-drafferth mae'n bosibl eich bod, fel fi, wedi cam-sillafu un ateb yn anghywir. "Clud" oedd fy ateb i ar gyfer 25 i lawr. Ond "clyd" yw'r sillafiad cywir. Ymddiheuriadau lu!

## CROESAIR MEHEFIN 2019




**Ar Draws :**
9. Cyfandir ac ynys
10. Stori foesol
11. Côd - a ditectif
12. Un sy'n gwrthod bwyta
13. Cymryd hylif i mewn
14. Aloi o fercwri a metel arall – weithiau i lenwi dannedd
17. Gwobrau ee heddwch, llenyddiaeth
19. Pencampwyr Uwch-gynghrair pêl-droed Cymru (1,1,1)
20. Dau bac yn gwthio yn erbyn ei gilydd
21. Ee Patagonia
22. Egni gan rhywbeth am ei fod yn symud
24. Un sy'n gorwedd yn yr haul?
26. Cerddoriaeth araf ac urddasol
28. Pryd ganol-dydd?
29. Camel ag iddo un crwbyn

**I Lawr :**
1. Olew persawrus i wella clwyf
2. Cymhleth
3. Dideimlad
4. Anafu
5. Enillodd tîm rygbi hwn eleni (4.4)
6. Bwlch mewn wal neu ffens
7. Erfyniol
8. Galluogi mynediad
13. Ysgogi
15. Diffyg presenoldeb
16. Dafad feichiog
18. Dawnswraig
19. Ymuno ee â chymdeithas
22. Pentref ger Corwen
23. Byddai hwn yn amddiffyn milwr rhag saethau
24. Cyllell fawr
25. Cyw ceffyl
27. Ysbaid fer

BROOKHOUSE MILL
Bwydlen á la carte, cinio, a chinio dydd Sul
Priodasau, dyweddïad, penblwydd, bedydd
Agored 7 diwrnod yr wythnos a thrwy'r dydd ar y Sul
Ffôn: 01745 813377

MALDWYN WILLIAMS
Ffordd y Rhyl, Dinbych

Ffôn:01745 812542
DARNAU I BOB MATH O GEIR
STÔRS: 813840
GORSAF MOT

GOLCHFA CEIR
GWERTHU CEIR A CHERBYDAU 4 X 4
Ffôn:01745 814647
maldwynwilliams@garageservices1.fsnet.co.uk

# Ysgol Glan Clwyd

Mae Blwyddyn 7 wedi bod yn cerdded ar hyd amddiffynfeydd llifogydd Llanelwy gan ddeall sut mae'r rhain yn amddiffyn y ddinas o lifogydd ers y trychineb yn 2012. Roedd gweld ac astudio'r amddiffynfeydd yn sicrhau bod y genhedlaeth nesaf yn deall sut mae'n bosib dysgu o'r gorffennol ar gyfer dyfodol mwy diogel.

Efallai eich bod wedi gweld disgyblion Blwyddyn 8 ar ochr y ffordd wrth deithio drwy Llanelwy'n ddiweddar. Mae blwyddyn 8 wedi bod yn brysur yn cynnal ymholiad Daearyddiaeth gan gyfri llif traffig a phobl a chynnal holiaduron i ddeall patrymau siopa pobl. Diolch yn fawr os oeddech wedi cyfrannu at eu hymholiadau. Roedd y disgyblion wedi mwynhau'n fawr dysgu tu allan i'r dosbarth yn enwedig y tywydd braf!

**Taith First Lego League i Detroit**

Mae'r Ŵyl y Byd FIRST, a gynhelir yn flynyddol, yn ddathliad enfawr o bopeth sy'n ymwneud â roboteg, ac mae yna gystadleuaeth ffyrnig ond cyfeillgar rhwng y cenhedloedd. Eleni, denodd y digwyddiad dros 70,000 o ymwelwyr o bob cwr o'r byd, ac roedd yn cynnwys dros 1,300 o robotiaid yn cystadlu benben â'i gilydd ar amrywiaeth o heriau a osodwyd gan y trefnwyr ac a farciwyd gan banel o feirniaid uchel eu parch.

Hyfforddwyd tîm Egni, sef Issac Lloyd, Jac Williams a Thia Williams, sy'n ddisgyblion blwyddyn 9 yn yr ysgol, gan eu hathro DT, Mr Siôn Jones. Pan gawsant eu gwahodd i Ŵyl y Byd ar ôl cystadlu yn Rownd Derfynol Genedlaethol yr FLL ym Mryste, dywedodd Jac: "Rydym wedi cynhyrfu'n lân o gael ein dewis i gynrychioli Cymru yn y rowndiau terfynol yn Detroit. Rwy'n edrych ymlaen ar gyfarfod timau FLL o bob cwr o'r byd a rhannu ein profiadau â nhw."



Yn y cyfnod cyn y gystadleuaeth, treuliodd y tîm nifer o ddiwrnodau, yn ystod amser cinio ac ar ôl ysgol, yn paratoi datrysiadau arloesol i dasgau a oedd yn ymwneud â'r gofod, a hynny yn rhan o'r thema '*Into Orbit*'.

Ar ddiwedd y gystadleuaeth, cymerodd yr holl dimau ran mewn seremoni wobrwyo yn y Cobo Center yng nghanol tref Detroit, ac roedd Tîm Egni yn gyffro i gyd pan gafodd ei alw i'r llwyfan i gael un o'r gwobrau arbennig a ddewiswyd gan y beirniaid eu hunain. Cymeradwyodd y beirniaid y tîm am ei syniadau mawr mewn perthynas â datrys y broblem o ofodwyr yn teithio trwy'r gofod ar ddisgyrchiant sero.

Disgrifiodd Thia ddatrysiad y tîm: "Trwy efelychu disgyrchiant byw y Ddaear, mae'n datrys nifer o broblemau y gallai gofodwyr eu hwynebu. Roeddem wir yn meddwl ar raddfa FAWR wrth feddwl am broblemau i'w datrys! Gobeithio y bydd ein syniad yn cael ei wireddu rhyw ddydd!"

Er mai dim ond tri oedd yn y tîm, roedd yr ymchwil drylwyr, ddofn a wnaed i'r broblem wedi creu argraff fawr ar y beirniaid, ynghyd â'r ffaith nad oedd arnynt



Trefnwyr Angladdau Annibynnol
R.W.Roberts a'i Fab
Gwasanaeth personol a gofalgar, Ddydd a Nos
Capel Gorffwys breifat yn Ninbych ac yn ein swyddfa newydd yn Abergele
Gorffwysfa, Ffordd Ystrad, Dinbych, LL16 4RH
Ffôn: 01745 812935
Ffacs : 01745 817303
Plas Tirion, Kinmel Avenue, Abergele, LL22 7LW
Ffôn: 01745 827777
Ffacs : 01745 827750
E:rwroberts.gorffwysfa@gmail.com E: rwroberts.abergele@gmail.com
www.rwrobertsandson.co.uk
Golden Charter Funeral Plans
National SAIF Independent Funeral Directors

J. H. & B. JONES
CIGYDD TEULU
Gwerthu PYSGOD hefyd
* Cig cartref
* Cig o ffermydd lleol
* Cig i'r rhewgell
92 Stryd y Dyffryn, Dinbych
01745 812132



ofn meddwl y tu allan i'r bocs er mwyn darganfod datrysiad ymarferol.

Wedi i'r wobr arbennig iawn hon gael ei dyfarnu i'r tîm, dywedodd yr hyfforddwr, Mr Siôn Jones: "Rwyf wrth fy modd dros y tîm eu bod wedi ennill anrhydedd mor glodfawr, ac rwy'n sicr y bydd hyn wedi ysbrydoli timau eraill ledled Cymru. Ni fyddai ein taith i Ŵyl y Byd wedi bod yn bosibl heb y cwmnïau a'r unigolion hynny a neilltuodd eu hamser ac a ddarparodd gyllid ar gyfer y daith. Diolch yn arbennig i Technocamps, yr IET a'r CABC."

Mae Technocamps wedi cefnogi taith y tîm i Detroit trwy ddarparu cyngor technegol, citiau roboteg, hyfforddiant a mentoriaeth. Aeth Swyddog Cyflawni Technocamps, Teri Birch, gyda'r tîm a'i hyfforddwr, gan ddarparu cymorth ar y ddaear a chefnogaeth foesol werthfawr.

Dywedodd yr Athro Faron Moller, Cyfarwyddwr Technocamps: "Mae rhaglen draws Gymru Technocamps wedi ymrwymo i gefnogi amrywiaeth eang o weithgareddau allgyrsiol sy'n ysbrydoli ac yn cymell disgyblion i ddysgu rhagor am gyfrifiadureg a'i phynciau STEM cysylltiedig. Rydym yn teimlo'n angerddol am ddarparu cymorth i ysgolion Cymru i gystadlu ar y llwyfan byd-eang. Rwyf wrth fy modd yn clywed am lwyddiant Tîm Egni, ac yn falch o fod wedi gallu ei gefnogi ar ei daith."

Dyma'r drydedd flwyddyn yn olynol i Technocamps gefnogi ysgol o Gymru i lwyddo yn y gystadleuaeth FIRST genedlaethol a chynrychioli'r Deyrnas Unedig yn rowndiau terfynol y byd. Mae FIRST wedi cyhoeddi ei thema ar gyfer cystadleuaeth y flwyddyn nesaf, sef 'City Shaper', a chyhoeddir yr heriau ym mis Awst.

Bydd Technocamps yn parhau i gefnogi'r timau uchelgeisiol o Gymru i baratoi ar gyfer yr her, a gobeithiwn y bydd yna gynrychiolydd o Gymru yng Ngŵyl y Byd unwaith eto.

Hoffai Tim Egni ddiolch i'r holl noddwyr lleol a gyfranodd arian i'w galluogi i wneud y daith i America yn un gwerthfawr a chofiadwy iddynt.

**Pwysigrwydd siarad:** Wythnos diwethaf mi drefnodd Rowan Hughes prif ddisgybl ac Ifan Mars Jones dirprwy prif ddisgybl fore coffi i godi ymwybyddiaeth iechyd meddwl dynion i'r staff a hogiau'r 6ed, cawsant fore llwyddianus iawn yn trafod a meddwl am syniadau i godi ymwybyddiaeth dros baned a chacenau. Diolch i'r hogiau am drefnu.

**Llongyfarchiadau** i dim merched o dan 13 a ennillodd Cwpan ysgolion Cymru yn y ffeinal dros y penwythnos dwytha. Fe chwaraeodd bawb yn anhygoel i'r gic diwethaf, o dan reolaeth y capten Alaw Jones. 0-0 oedd canlyniad y gem, ond ennill oedd hanes Ysgol Glan Clwyd wedi'r diwedd gan guro ar giciau smotyn o 5 gol i 4. Ymlaen nesaf i gynrychioli Cymru yn y gystadleuaeth 5 gwlad ym Mis Hydref. Da iawn ferched!

**HEN LUNIAU**

Os oes gennych hen luniau o'ch teulu, cymdogion neu ffrindiau o'r ardal ac yn dymuno eu rhannu gyda darllenwyr y Bigwn, anfonwch ar ffurf ebost at ybigwn@hotmail.co.uk ac fe roddwn un llun bob mis yn Y Bigwn. Os yn bosib, byddai enwau, digwyddiad neu yr achlysur yn help i bawb adnabod y llun.

## Annwyl Stan,

Mae adrannau "P.R" y cwmniau egni wedi hysbysebu'r mesuryddion *smart* fel dull i ni arbed egni drwy fod yn ymwybodol o'r defnyddiad trydan dros gyfnod byr. Ond fel rydych wedi sylwi, mae'n annhebyg i wneud gwahaniaeth i ni. Da ni wedi hen arfer diffodd goleuadau a gwresyddion trydan pan nad oes angen arnynt.

Pwrpas y mesuryddion newydd yw i'r defnyddiwr allu ymdopi efo *tariff* sy'n newid o awr i awr neu o funud i funud, yn ôl y llwyth a dderbyniwyd gan y rhwydwaith trydan. Yn y gorffennol, pan losgwyd cyflenwadau diddiwedd o lo, olew a nwy i gynhyrchu trydan, roedd digon o 'slac' gan y cwmniau i ddelio efo llwythau trwm, dros dro.

Ond heddiw mae llai o danwyddau ffosil yn cael eu llosgi, a phwysau i newid i egni adnewyddadwy. Mae egni'r gwynt a'r haul yn llai dibynadwy, felly yntau rhaid adeiladu llawer mwy o felinau gwynt, a paneli ffotofoltaig i ddelio efo'r llwyth dros dro, neu rhaid i'r defnyddiwr dderbyn cwtogi ar ei gyflenwad trydan ar amserau brig.

Mae'r *smart meter* yn adnabod yr amserau brig hyn, a bydd pris y trydan yn y cyfnodau yma yn codi, efallai yn sylweddol. Does neb eisiau eistedd yn ei gartref yn y tywyllwch yn ystod y cyfnodau yma, ond mae nifer o'r peiriannau yn ein cartrefi ymlaen trwy'r amser, a gellir eu diffodd dros dro, heb effaith ar ein bywydau - e.e. yr oergell a'r rhewgell; gellir aros tan hwyrach cyn cynnal y periannau golchi dillad. Mae'r *smart meter* yn cyfathrebu efo'r peiriannau diweddaraf i'w gorchymyn i ddiffodd dros dro. Dylsai hyn ddigwydd yn y cefndir, heb fod yn amlwg i ni. Ond wrth gwrs, os ydych yn mynnu berwi'r tegell yn y cyfodau yma, bydd rhaid talu mwy am y fraint.

Efallai cawn weld mwy o ddefnydd o fflasgiau thermos a photeli dŵr poeth!

Cofion,

Rhys Thomas
Ystrad Isa
Dinbych.

## Tair Ffynnon Gwerth ei Gweld

Y mae gan Gymru gyfoeth o ffynhonnau. **Dydd Sadwrn, 13 Gorffennaf 2019**, y mae Cymdeithas Ffynhonnau Cymru yn cynnal ei Chyfarfod Blynyddol, a byddwn yn cwrdd yn Festri Capel Bethesda, Stryd Newydd, Yr Wyddgrug, am 10.30 am.

Yn y prynhawn awn i weld tair o ffynhonnau mwyaf diddorol y Gogledd, o dan arweiniad

**Y Parchg Eirlys Gruffydd-Evans:**

**Ffynnon Degla, Llandegla**
**Ffynnon Sara, Derwen**
**Ffynnon Sulien, Corwen**

Y mae'r cyfarfod yn rhad ac am ddim, a bydd paned ar gael. Ond dewch â chinio gyda chwi. Croeso cynnes iawn i bawb.

# Bywyd Dyn Pryderus

Dydd Mawrth y seithfed o Fai oedd hi pan wnaeth y bollt fy nharo i - fyddem ni'n dau ddim gartref diwrnod yr etholiad ar gyfer Senedd Ewrop.
Dyma'r geiriau **Pleidlais Drwy'r Post** yn llamu atom. Rhuthrais i chwilio am fanylion ynglŷn â sut i fynd o'i chwmpas hi a darganfod mai drannoeth oedd y diwrnod cau ar gyfer gwneud cais am bleidlais o'r fath!
" Y we," meddai'r wraig. Y we ydy'r ateb i bob dim yn ein tŷ ni, yn union fel yn eich cartref chi, mae'n debyg.
Yn anffodus, y tro hwn doedd pethau ddim yn gweithio mor rhwydd â'r disgwyl, a'r canlyniad oedd imi – oherwydd rhwystredigaeth - orfod diffodd y Kop ar ganol "You'll Never Walk Alone" ac, yn waeth fyth, colli gôl gyntaf Lerpwl.
Ar ôl bustachu'n aflwyddiannus drwy gyfarwyddiadau Sir Ddinbych yn y ddwy iaith, dyma benderfynu ar Gynllun B – mynd draw i Neuadd Y Sir yn Rhuthun yn blygeiniol drannoeth.
" Sori," meddai'r wraig wrth y dderbynfa yn y fan honno. " Does gennym ni ddim ffurflen gais yn y Gymraeg. Bai Llywodraeth Cymru ydy hynny."
Ia, beiwch nhw am bopeth, meddyliais.
Wel, ta waeth, fe dderbyniais i'r ffurflenni Saesneg, mynd â nhw adre' i'w llenwi, a dychwelyd o fewn yr awr.
Roeddwn i'n benderfynol nad oeddwn i'n mynd i golli ar y cyfle i bleidleisio. Dydwi erioed wedi methu â chyflawni'r ddyletswydd hon ers imi dderbyn y fraint flynyddoedd maith yn ôl.
Wedi'r cyfan fe wnaeth ein cyndeidiau frwydro'n galed i sicrhau'r bleidlais i bawb.
Fe ddaeth y papur pleidleisio - yn ddwyieithog - o fewn ychydig ddyddiau, ac roeddwn i wedi bwrw fy mhleidlais cyn i'r pleidiau gwleidyddol gysylltu mewn unrhyw fodd â mi!
Rhyfedd o fyd!
...........................................

"Gan ein bod ni'n mynd ar ein gwylia, well imi archebu fy nhabledi pwysau gwaed mewn da bryd," meddwn i.
*" Ond mae yna bythefnos tan hynny.Wyt ti'n brin ohonyn nhw?"meddai hithau.*
" Nac ydw, ar hyn o bryd. Mae gen i ddigon am sbel. Ond ar y dydd Llun cynta' ar ôl inni ddod adra mae hi'n Ŵyl Y Banc, a ti'n gw'bod fod y feddygfa isio dau ddiwrnod o rybudd."
*" Faint sydd gen ti ar ôl?"*
" Digon tan y dydd Iau ar ôl inni ddod adra."
*" Be ydy'r broblem felly? Mae gen ti hen ddigon."*
"Ond dwi wedi gweld y fferyllfa yn y gorffennol yn gorfod d'eud wrth bobl nad oes ganddyn nhw ar y pryd rai tabledi. A ti'n gw'bod fel y mae hi efo'r busnas Brexit yma. Well imi ordro nhw mewn da bryd."
*" Yli, nid ti fydd yr unig un efo pwysedd gwaed uchel yn y tŷ 'ma os wyt ti'n mynd ymlaen fel hyn."*
...........................................

*" Be' ti'n 'neud? Pam wyt ti'n troi'n ôl am adra."*
" Well imi 'neud yn saff ein bod ni wedi cau bob ffenast a chloi bob drws."
*" Ond rwyt ti newydd 'neud hynny gynna. Rydan ni ar fin cyrraedd Rhuthun."*
" Wel, does gen i ddim cof o gloi'r drws cefn na chau ffenestri'r stafell 'molchi. A d'eud y gwir dwi ddim wedi cloi'r sied chwaith."
*" Ond dwyt ti byth bythoedd yn cloi'r sied."*
" Wel, mae'n well g'neud hynny pan rydan ni'n mynd i ffwrdd am ychydig ddyddiau."
*" Ond does gen ti ddim byd o fawr werth ynddi hi, dim ond pethau sy'n rhwd i gyd."*
" Nac oes, fe wn i. Ond gwell imi ei chloi. Hefyd well imi 'neud yn siwr ein bod ni wedi diffodd pob swits a thynnu pob plwg o'i soced."
*" Dwn i ddim pam ydan ni'n mynd ar wylia' wir."*
" Wyt ti wedi pacio fy nhabledi i?"
*" Do."*
"Ble maen nhw?"
*" Yn y bag yma."*
"Ti'n siwr?"


Jones & Graham

45 Stryd y Dyffryn
Dinbych
Sir Ddinbych
LL16 3AH

CYFRIFWYR AC YMGYNGHORWYR BUSNES

Cyfarfod cyntaf yn rhad ac am ddim

Pob gwasanaeth ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg

01745 816321 office@jonesandgraham.co.uk



SJ CYFREITHWYR SwayneJohnson SOLICITORS

Yn cyflwyno Amser i Siarad ....

**Ewyllysiau, Pwerau Atwrneiaeth a Costau Gofal**

NID OES ANGEN ARCHEBU LLE

**Ymunwch â'n harbenigwyr am gyflwyniad addysgiadol rhad ac am ddim ar y materion pwysig hyn gyda'r cyfle i holi ein cyfreithwyr profiadol**

**Neuadd Gymunedol Llys Erw**
**Rhuthun**
*10yb–11yb*
**2il Mai**
4ydd Gorffennaf
**5ed Medi**

**Canolfan Gymunedol Eirianfa**
**Factory Place, Dinbych**
*10yb-11yb*
20fed Mehefin
**18fed Gorffennaf**
15fed Awst
**19eg Medi**

**Canolfan Gymunedol Awelon**
**Ffordd yr Ysgol, Rhuthun**
*10yb–11yb*
6ed Mehefin
**1af Awst**

Am fwy o wybodaeth cysylltwch ag aelod o'n Tîm Cleientiaid Preifat ar
**01824 703833 (Rhuthun) neu**
**01745 818263 (Dinbych)**

**Byddwn yn cynnig gostyngiad unigryw i'r rhai sy'n mynychu**

www.swaynejohnson.com cyfraith@swaynejohnson.com

# Y Wasg Rydd

Yn ddiweddar, tra'n darllen y Free Press, sylwais mai mis Mehefin nesaf, fydd y papur yn 138 oed. Yn y flwyddyn 1881, daeth newyddiadurwr ifanc o'r enw Charles Cottom yma i Ddinbych gyda'r bwriad o sefydlu papur lleol Saesneg newydd yn y dref. Un o'r Amwythig oedd Charles Cottom, un oedd wedi symud i Wrecsam i ddysgu crefft gohebydd ar y Wrexham Guardian. Dim ond 27ain oedd o ar y pryd, ac wedi bwrw cyfnod o ddeng mlynedd fel cynrychiolydd y Guardian yn Ninbych, fe benderfynodd lansio'r papur newydd ar ei liwt ei hun.

Dim ond pedair tudalen oedd maint y cyhoeddiad newydd ac yn dwyn y teitl, 'Vale of Clwyd Free Press'. Bryd hynny wrth gwrs yr oedd Dinbych yn ganolfan brysur gyda marchnad fywiog ac yma hefyd y cynhaliwyd y Sesiynau Chwarter. Penderfynodd Cottom ysgrifennu'r colofnau golygyddol ei hunan.

Eisoes, yr oedd papur Cymraeg, Y Faner, wedi ei sefydlu a'i argraffu yma yn Ninbych gan Thomas Gee ers 1857, ac yr oedd papurau Saesneg eu hiaith, 'The Caernarvon and Denbigh Herald', ac wrth gwrs, 'The Wrexham Guardian' wedi hen ennill eu plwyf. Tra'n cyflwyno teyrnged i Cottom, adeg ei farwolaeth ym 1928, fe ysgrifennodd un o gyn ohebyddion y Free Press, Y Barnwr T. Artemus Jones, 'menter go ddewr ym 1881 oedd lansio papur Saesneg newydd mewn ardal mor Gymreig â Dinbych'.

Newyddiadurwr arall a ddysgodd ei grefft gyda Charles Cottom oedd J.H. Howard, ac wrth gofio'i ddyddiau cynnar, pan argraffwyd y papur yn Llundain, dywedodd, 'Arferai gweithwyr fel Tom Bassett, Walter Scott, a Tommy Lloyd, ruthro i lawr Stryd y Dyffryn i'r stesion gyda'r bwndeli dan eu breichiau.'

Ymhen blwyddyn neu ddwy, yr oedd y cwmni newydd wedi'i sefydlu ar hen Stryd y Dyffryn, bron gyferbyn â Bronallt, cartref Thomas Gee, ond fel y datblygodd y busnes, bu rhaid symud eto, y tro hwn i lawr i rif 33.

Yn ystod degawd cyntaf y ganrif newydd, tyfodd dylanwad Cottom yn y dref yn sylweddol. Fe'i penodwyd yn Ystus Heddwch ym 1905 ac fe wasanaethodd ar Gyngor Bwrdeistref Dinbych am 21ain o flynyddoedd. Ef oedd y Maer yn ystod 1911 -12, ac ar y pryd, yn brif ystus y fainc.

Yn ôl y disgwyl efallai yr oedd ymryson eithafol rhwng Gee a Cottom - naill yn Rhyddfrydwr amlwg, yn Fethodist rhonc ac yn Gymro tanbaid, a'r llall yn Geidwadwr ffyddlon ac yn Eglwyswr selog. I danlinellu hyn, ymgartrefodd Cottom unwaith eto, y tro hwn yn Clwydian House heb fod tafliad carreg o gartref Gee.

Ym 1921, yn union ddeugain mlynedd wedi sefydlu'r Free Press, fe benderfynodd Cottom ymddeol ac fe brynwyd y wasg gan Henry Vaughan a George Tomes, y ddau yn gyn-weithwyr ar y Rhyl Record and Advertiser. Ychydig flynyddoedd wedyn, unwyd y cwmni hwn gyda'r Rhyl Journal.

Un fu gyda'r Free Press am bron hanner can mlynedd oedd yr hoffus Harold Lloyd, nes iddo yntau ymddeol yn 1969.

Carreg filltir go bwysig oedd honno ym 1957 pan unwyd y Free Press gyda'r North Wales Times a dyna sut y daeth yr enwog David Edward Roberts, a adnabyddid fel 'Man about Town', i ymuno â nhw. Bu'n hynod weithgar gyda'r papur hyd ei farwolaeth yn 83 oed.

Wrth gwrs, pan ddaeth Gwilym R. Jones i Ddinbych ym 1939 i fod yn olygydd y North Wales Times, ac yn gystadleuydd i'r Free Press, y peth cyntaf wnaeth oedd astudio, 'papur yr oposision', chwedl Morris T. Williams, priod Dr. Kate Roberts. Dysgodd yn lled fuan ei fod yn gyhoeddiad lleol graenus oedd wedi hen ennill ei blwyf. Ynddo yr oedd pob math o newyddion o'r Dyffryn heb sôn am fyrdd o eitemau blasus o'r holl bentrefi rhwng Corwen a'r Foryd. Hefyd yr oedd hanesion cryno am y cynghorau a'r llysoedd barn, yr eisteddfodau lleol a'r sioeau, a'r cwbl wedi eu cysodi'n hynod ddealladwy. Fel y dywedais, Ceidwadol ac Eglwysig oedd yr agwedd olygyddol a bod y papur yn bur dderbyniol gan y sefydliad Seisnig / Gymraeg yr ardal ac yn arbennig gan ddarllenwyr tref Rhuthun. Dywedai J.J. Evans (taid Mrs Gwenfron Cawthray), un o bileri Gwasg Gee, y byddai Mr Gee yn siarsio ei olygyddion a'i ohebwyr bob amser i gofio pwysigrwydd y drindod, 'Geni, Priodi, Marw'.

Anelodd Gwilym R at apelio at elfen fwy gwerinol a Chymreig na'r Free Press gan danlinellu bywyd Cymraeg a Chymreig y dyffryn a buan y clywodd gwyno bod y North Wales Times yn rhy eithafol ac yn rhoi gormod o bwyslais i fudiadau Cymreig fel Undeb Cymru Fydd, Yr Urdd, Deiseb yr Iaith a Phlaid Genedlaethol Cymru.

Bryd hynny, fel y cofiaf, mater o ddewis oedd hi i bob cartref pa bapur oeddent am ei dderbyn, naill ai'r Free Press neu'r North Wales Times. Dim ond ychydig oedd yn prynu'r ddau. Yn ein hachos ni adref, y North Wales Times oedd y dewis.



Gweithwyr y Free Press y tu allan i 33, Stryd y Dyffryn. Charles Cottom yw y pedwerydd o'r chwith.

Ond yn sicr yr oedd y Free Press yn cyflawni ei swyddogaeth yn fedrus. Cai gefnogaeth gyson yr hysbysebwyr pwysig - y cwmnïau masnachol a'r cynghorau lleol. Bu hefyd yn ddigon doeth, i raddau, i fod yn bapur dwyieithog gyda gŵr di-enw yn cyfrannu i'r golofn Gymraeg.

Pan unwyd y ddau bapur ar ôl yr Ail Ryfel Byd, fe lwyddwyd i impio dwy goeden go ffrwythlon gyda'i gilydd ac erbyn heddiw mae'r hen bapur yn dal ar ei draed ond yn wahanol iawn i'r hyn yr oedd yn y dyddiau cynnar. Gyda thyfiant dylanwad y teledu, ynghyd â'r cyfryngau eraill, beth tybed fydd ei dynged? Ac yn bwysicach fyth, beth fydd tynged a dyfodol ein papurau bro?

R M (Bobi) Owen

# YR ŴYL BAN GELTAIDD YN LETTERKENNY ETO ELENI

Unwaith eto eleni yn Letterkenny, Swydd Donegal, yng nghornel Ogledd Orllewinol Gweriniaeth Iwerddon y cynhaliwyd yr Ŵyl Ban Geltaidd yn syth ar ôl dathlu'r Pasg. Teithiodd llond bws ohonom o Ogledd Cymru â'r daith o Gaergybi i Letterkenny'n cymryd tua pedair awr a hanner! Ta waeth, cawsom dywydd braf i gwblhau'r siwrna a'r croeso wedi inni gyrraedd yn dwymgalon.

Yn y Noson Agoriadol ar y nos Fawrth, cynrychiolwyd Cymru gan Ieuan ap Sion yn canu'r Anthem Geltaidd, Gwenan Gibbard a Dylan Cernyw ar eu telynau a'r Brodyr Magee o Gaergybi. Cynrychiolaeth deilwng iawn. Diolch i chi.

Roedd pump côr o Gymru yn rhan o'r Ŵyl - Côr y Brythoniaid, Meibion Marchan o ardal Rhuthun, Côr Glanaethwy ( y rhieni a ffrindiau), Côr y Ddinas o Lundain a Chôr Cantilena. Daeth bob un o'r corau i'r brîg mewn gwahanol gystadlaethau. Llongyfarchiadau i chi i gyd. Enillodd Côr Cantilena y Gystadleuaeth Agored i Gorau ac hefyd nhw enillodd Gôr yr Ŵyl. Ardderchog. Côr newydd o bobl ifanc o Ddyffryn Conwy yw Côr Cantilena sydd wedi ei ffurfio i gystadlu'n yr Eisteddfod Genedlaethol eleni'n Llanrwst. Maen nhw'n chwip o gôr. Pob lwc i'r côr ac i'w harweinyddes frwyfrydig, Angharad Ellis.

Dyma fanylion y cystadlaethau corawl :-

Cystadleuaeth i Gorau Cymysg – 1. Côr Cantilena 2. Côr Glanaethwy

Cystadleuaeth i Gorau Merched – 1. Côr glanaethwy 2. Côr y Ddinas

Cystadleuaeth i Gorau Meibion – 1. Côr y Brythoniaid 2. Meibion Marchan

Cystadleuaeth i Gorau'n Canu Caneuon Traddodiadol – 1. Côr Glanaethwy 2. Côr Burach o'r Alban

Cystadleuaeth Agored i'r Holl Gorau –1. Côr Cantilena 2. Côr y Brythoniaid

Y Perfformiad Gorau gan Gôr yn yr Ŵyl (Côr yr Ŵyl) – Côr Cantilena.

Gwych iawn a diolch i bob côr, eu harweinyddion a'u cyfeilyddion am gefnogi'r Ŵyl.

Enillydd Cystadleuaeth y Gân Werin Unigol unwaith eto eleni oedd Gwilym Bowen Rhys o Fethel, Arfon gyda'i ddatganiad o'r Eneth Gadd ei Gwrthod a chyfansoddiad newydd o gân werin o'r enw Owain Lawgoch. Gwych. Enillodd y wobr gyntaf am Gyfansoddi Cân Werin Newydd. Da iawn ti Gwilym. Daeth Y Brodyr Magee yn ail yn y Gystadleuaeth Grŵp Gwerin. Diolch i chi hogia, da chi'n ffyddlon eich cefnogaeth i'r Ŵyl.

Yr Iwerddon enillodd Gystadleuaeth y Gân Ryngwladol gyda Chymru'n dynn ar eu sodlau, gyda un marc o wahaniaeth rhyngddynt. Yn cynrychioli Cymru y tro hwn oedd Elidyr Glyn a enillodd Cân i Gymru. Diolch Elidyr a'r grŵp Yr Ogiau.


Nid oedd cystadleuwyr i'r gystadleuaeth i Ddawnswyr Gwerin Unigol, ond yn y ddwy Gystadlaethau i Grwpiau Dawnsio Gwerin y Llydawyr ddaeth i'r brîg ar y ddau achlysur gyda Dawnswyr Tipyn o Bopeth yn ail da iddynt.

Roedd Tammy Jones, y gantores canu gwlad enwog o Landegai, a'i ffrind ar y daith hefo ni eleni. Canodd Tammy'n Noson y Cymry – roedd yn hyfryd clywed ei llais unwaith eto mor glir ac erioed. Mae'n dipyn o gymeriad! Diolch Tammy.

Aethom ar ddau drip yn ystod yr wythnos – un i Barc Cenedlaethol Glen Veigh lle y cerddais am filltiroedd! Roeddem y lwcus o'r tywydd – 'lle i enaid gael llonydd'. Ymweliad arall oedd i Oleudy Penrhyn Fanad. Dim cymaint o lwc hefo'r tywydd y tro hwn – glaw mawr! – Mae golygfeydd gwych i'w gweld yno pan fo'r tywydd yn ffafriol! Ta waeth, cawsom fynd yn gynt am ginio blasus a chroeso cynnes iawn yn y 'Lighthouse Tavern' cyn rhuthro'n ôl ar gyfer Y Parêd drwy Stryd Fawr Letterkenny, ac erbyn hynny roedd wedi stopio bwrw!


Os fyddwch chi'n ymweld ag ardal Letterkenny ar eich gwyliau gwnewch bwynt o fynd am bryd i fwyty'r 'Yellow Pepper' ar waelod y Stryd Fawr. Chewch chi mo'ch siomi. Mae'r bwyd môr yn fendigedig yno!

siop siocled
01745 814864 dinbych
Siocled o wlad y Belt
Siocled cymraeg o Bala
Pizza siocled - Te, coffi a sgwrs
Cinio ysgafn - Cacenau blasus a sgons
Annie
YN FALCH I GEFNOGI Y BIGWN
Stryd y Dyffryn, Dinbych
www.denbighchocolateshop.com

Glyn Evans Autoclinic
Atgyweirio Ceir
Stad Colomendy, Dinbych LL16 5TA

*Atgyweirio car ar gyfer hawliadau yswiriant a gwaith preifat
* Ceir a 4x4 cwrteisi
* Gwasanaeth Cymraeg
01745 815141
repairs@evansautoclinic.com


TE YN Y GRUG
Tŷ Te a Delicatessen
Coronation Buildings,
Lôn Gefn,
Dinbych, Ll16 3TE
deli@teynygrug.co.uk
01745 816576

# LLYFR I YSBRYDOLI CENHEDLAETH NEWYDD O FERCHED CYMREIG




Yr wythnos hon cyhoeddir *Genod Gwych a Merched Medrus* (Y Lolfa) gan Medi Jones-Jackson. Mae'r llyfr yn dilyn llwyddiant llyfrau Saesneg fel *Rebel Girls* ond dyma lyfr gwreiddiol sy'n cofnodi hanes 14 o ferched ysbrydoledig o Gymru ac mae'n 'gyflwyniad perffaith i rai o ferched blaenllaw Cymru a wnaeth anelu'n uchel, cyrraedd y brig a newid siâp ein cenedl.'

Ceir hanes bywyd a ffeithiau diddorol am Tori James, Gwendoline a Margaret Davies, Betty Campbell, Frances Hoggan, Laura Ashley, Eileen Beasley, Amy Dillwyn, Kate Bosse Griffiths, Angharad Tomos, Jade Jones, Haley Gomez, Betsi Cadwaladr a Mair Russell-Jones. Mae'r casgliad yn amrywio o ran lleoliad daearyddol a meysydd gwahanol gan gynnwys meddygaeth, addysg, gwyddoniaeth, llên, chwaraeon a chelf. Mae pob un wedi cyflawni campweithiau yn eu meysydd penodol. Mae yna weithgareddau llawn hwyl a lliwgar ar ddiwedd y gyfrol, sy'n ymwneud â phob un o'r merched medrus. Mae'r gweithgareddau'n cynnwys posau, holiadur, chwilair a chelf.

Meddai Medi Jones-Jackson, "Dwi wastad wedi ymddiddori mewn hanes merched. Mae gen i gof o ymweld â stad Erddig a chael fawr o ddiddordeb yn hanes y bobl grand fyny grisiau. Ond ysu am wybod mwy am hanes y merched oedd yn byw lawr grisiau oeddwn i – y bobol gudd. A dyna, yn wir, ydi hanes y ferch yn ein cenedl ni – anweledig."

Cafodd Medi ei hysbrydoli wrth ddarllen stori cyn gwely i'w merch Anest, sy'n 6 oed. "Roedd y ddwy ohonom wedi bod yn darllen am hanes Simone Biles, Marie Curie ac Alicia Alonso a sylweddoli nad oedd dim ar gael yn Gymraeg yn trin a thrafod anturiaethau a chlodfori merched o Gymru."

Y sbardun olaf oedd wrth iddi dderbyn neges gan ffrind yn ei hannog i ysgrifennu'r llyfr ar ôl iddi gwyno ar Facebook am y diffyg a'r bwlch yn farchnad.

"Mae'r broses wedi bod yn orchwyl gwych ac rwyf wedi mwynhau gweld fy syniadau'n dod yn fyw ar bapur," meddai Medi.

Mae'r llyfr wedi'i ddylunio'n ddifyr ac yn lliwgar gan Dyfan Williams ac mae lluniau cartŵn Telor Gwyn yn ychwanegu at naws chwareus a hwyliog y gyfrol.

Ar ddechrau ac ar ddiwedd y llyfr mae enwau rhai o ferched Cymru wedi'u rhestri, ar ôl ymgyrch casglu enwau ar ddechrau'r gwanwyn eleni.

"Roedd yr ymateb yn hollol wych! Derbyniais dros 300 o enwau o fewn wythnos neu ddwy! Dwi am i ferched bach Cymru berchenogi'r llyfr yma – dyna oedd y syniad y tu ôl i gynnwys enwau yn y cloriau. Rwy am iddyn nhw sylweddoli bod unrhyw beth yn bosibl dim ond iddyn nhw freuddwydio, gweithio'n galed a sianelu eu hegni! Does dim byd allan o gyrraedd unrhyw ferch."

Mae'r neges yn glir, ac yn cael ei nodi'n dda gan Tori James, a wireddodd ei breuddwyd drwy ddringo mynydd Eferest: "Os ydi merch o Sir Benfro yn gallu dringo mynydd uchaf y byd, mi fedri di hefyd wireddu dy freuddwydion. Y cwbl sydd eisiau ydi hunanhyder ac agwedd bositif."

Gobaith Medi yw y bydd hanes y ferch yng Nghymru yn fwy gweledol, a bydd mwy o fechgyn a merched yn adnabod enwau'r merched yn y llyfr, a hanes y wlad.

sir ddinbych
denbighshire
Cymraeg
Yn gweithio i
gryfhau'r Gymraeg yn ein cymunedau, drwy annog mwy o ddefnydd o'r iaith yn ein bywyd bob dydd.
Menter Iaith Sir Ddinbych
01745 812822
menter@MISirDdinbych.cymru
Menter Iaith Sir Ddinbych // @MIDinbych

MEIRION DAVIES A'I GWMNI
01745 812400
Ystâd Ddiwydiannol Colomendy, Dinbych
* Dillad a phethau fferm
* Bwyd anifeiliaid anwes
* Esgidiau a.y.b.
* Tegannau plant - a llawer rhagor
CROESO!
'Digon i bawb ohonoch
Ydyw lled ein carped coch'
John Glyn Jones

# Côr Merched Glyndŵr

Llun ar y dudalen ôl

**Lle aeth tri deg mlynedd?**
Ar Ebrill 4ydd, 1989, daeth 93 i neuadd Ysgol Twm o'r Nant, wedi i Leah Owen estyn gwahoddiad i ferched yr ardal i ffurfio Côr Cerdd Dant er mwyn cystadlu yn Eisteddfod Genedlaethol Llanrwst.
Fel yr aeth yr wythnosau yn eu blaenau, penderfynwyd ar enw - Côr Merched Glyndŵr. Roedd yn gyfnod prysur i mi yn magu teulu, ond roedd mynychu'r côr yn ddihangfa ar nos Fawrth wrth ddysgu llawer ar y cof, cymdeithasu a gwneud ffrindiau newydd. Cawsom ymweld ac aros dros nos ar draws Cymru wrth fynd i gystadlu yn yr Eisteddfod a'r Ŵyl Gerdd Dant, ac wrth gwrs yn yr Ŵyl Ban Geltaidd yn Iwerddon. Fe fu ambell i dro trwstan - buaswn yn gallu llenwi dwy dudalen! A'r wisg - wel sôn am strach! Dyna i chi gur pen i rywun! Dw'n i ddim sawl tro fu Wendy Owens a finnau i ffatri 'Anna Roose'i roi trefn ar y dillad. Penderfynwyd ar dop glas a sgert flodeuog a'u gwisgo am y tro cyntaf mewn cyngerdd yng Nghaerdydd. Daeth y siacedi maes o law. Roedd gwaith gwnïo ar gyfer pawb! Roedd yna dipyn o drin a thrafod am y wisg ond doedden nhw ddim yn crebachu! Cyfnod euraidd a llwyddiannus oedd hi i Gôr Merched Glyndŵr. Diolch am y cyfle i gael bod yn rhan.
Mair Roberts

**Côr Lleisiau'r Nant**
A ninnau ar drothwy ein pen-blwydd yn 30 oed dyma ychydig o atgofion am y côr gan rai o'r aelodau. Rydw i'n ddiolchgar iawn i Mair Roberts am gael tyrchu drwy'r holl bapurau, tystysgrifau a lluniau a gasglodd ar hyd y blynyddoedd er mwyn atgoffa fy hun o'r dyddiau cynnar hynny.
Ar gyfer Eisteddfod Genedlaethol Llanrwst 1989 y ffurfiwyd y côr dan yr enw Côr Merched Glyndŵr,a'r darnau a ganwyd oedd "Cwm Carnedd" Gwilym R Tilsley ar y gainc "Dyffryn Ogwen" Menai Williams. "Trymder" a "Merch Megan" oedd caneuon y Parti Alawon Gwerin. Mae pob copi o osodiadau a threfniannau Leah wedi eu cadw'n daclus gan Mair.
Roeddem ar dudalen flaen Y Bigwn Rhagfyr 1993 wedi i ni ddod i'r brig am y pedwerydd tro yn yr Ŵyl Gerdd Dant – Ystrad Fflur 1989, Bangor 1990, Y Rhyl 1992 a rwan Hendy Gwyn ar Dâf yn 1993.
Yn 1995 fe aethom ar daith i Killarney a Tralee ac yn ôl yr amserlen roeddem i fod i gyrraedd adre am 1:00 y bore "gyda lwc"! Wel doedd Meistres Ffawd ddim o'n hochr ni y noson honno gan na allai'r llong lanio yng Nghaergybi am fod rhywbeth wedi torri yn y doc. Buom yn segur o fewn cyrraedd yr harbwr am oriau a chyrraedd adre wedi 9 y bore a llawer ohonom i fod yn ein gwaith erbyn hynny. Ar y pryd roeddwn yn dysgu yn Ysgol Uwchradd Prestatyn ac roedd pwy bynnag oedd yn rhoi'r hyfforddiant mewn swydd yn yr ysgol ar y diwrnod hwnnw hefyd wedi bod yn yr Ŵyl Ban Geltaidd ac ar yr un llong ac felly'n hwyr i'w waith fel finna!
Angharad

---

Aelod o'r côr ers ei gychwyn ddeng mlynedd ar hugain yn ôl! Llawer o atgofion: dathlu yn Aberystwyth ar ôl ennill yn yr Ŵyl Gerdd Dant drwy drochi yn y môr! Seremoniau gwobrwyo gwallgo yn y cinio blynyddol; datgelu tatŵ cyfrinachol un aelod barchus! Bwrlwm o hwyl yn dysgu cyfoeth o ddarnau. Balm i'r enaid!
Meinir Jones

---

Cofiaf i Nia Thomas a minnau edrych ymlaen yn fawr am fynd i'r Wyl Gerdd Dant yn y De yn Nhachwedd 1995. Roedd gan y ddwy ohonom fabis bach ac roedden yn edrych ymlaen yn arw am gael ein traed yn rhydd a chael noson dda o gwsg mewn gwesty……… Allai ddim cofio dim am y cystadlu, na ble roedden ni, nag os wnaethon ni ennill ond gallaf gofio, yn glir, y siom o gael ein deffro gan y ffôn yn canu am 4 o'r gloch y bore ac athrawes leol, nid an -enwog ( sydd bellach wedi ymddeol ac yn hoffi teithio llawer) ar ben arall y ffôn yn ein gwahodd i barti yn ei hystfell !! Am 4 y bore! Chwarae teg, fe wnaeth ymddiheuro yn ddwys y bore canlynol a phrynu tedi yr un i'n babis!
Menai Baugh

---

Aelod cymharol newydd o'r côr ydw i - ers eisteddfod Meifod 2015. Dwi'n edrych ymlaen at ymarferion nos Fawrth ac mae llond car difyr iawn ohonom yn mynd o Landyrnog erbyn hyn. Mae Leah yn feistres ar ei chrefft ac yn gwybod yn iawn sut i gael y gorau bob tro. Diolch Leah. Ymlaen i Lanrwst!
Iona Davies

# Ffarwelio â Nesta

Daeth cyfnod llewyrchus y Parch. Nesta Davies, ein Cynorthwyydd Gweinidogaethol, i ben ddiwedd mis Mai, a chynhaliwyd cyfarfod ffurfiol yn Y Capel Mawr ar nos Fawrth Mai 14eg fel y gallai'r Fro gyfan ffarwelio â hi.
Diolchwyd iddi am ei gwaith diflino gan Y Parch. Nan Powell Davies, ei rheolwr llinell, a chymerwyd y rhannau defosiynol gan Mr Dilwyn Jones, Mrs Bet Roberts, Mrs Dilys Hughes, Mrs Carys Williams a Mrs Nerys Ann Roberts.
Darllenwyd y datganiad yn ei rhyddhau yn ffurfiol o'i dyletswyddau gan Y Parch. Nan Powell Davies.
Yn ei ffordd unigryw drwy gyfrwng lluniau a phenillion ysgafn, rhoddodd Nesta gipolwg inni ar yr hyn a gyflawnwyd dros y blynyddoedd diwethaf. Mynegodd hefyd y pleser a roddodd y gwaith iddi.
Llywiwyd y gwasanaeth gan y Gweinidog, a Mrs Catrin Warren oedd wrth yr organ.
Ar derfyn yr oedfa roedd lluniaeth ysgafn yn y festri, a chyfle i bawb flasu cacen arbennig a baratowyd ar gyfer yr achlysur.

SIOP CLWYD
33 STRYD FAWR
DINBYCH
01745 813431

Llyfrau, Cardiau, Crynoddisgiau a Chrefftau

# Theatr Gen Creu ar Daith: Pwy 'Sgrifennodd Honna?

Mae Theatr Genedlaethol Cymru ar fin mynd ar daith gyda darlleniadau o waith newydd gan y don nesaf o ddramodwyr Cymraeg. Cafodd 8 sgwennwr eu dewis i fod yn rhan o gynllun Grŵp Dramodwyr Newydd y cwmni – cyfres o weithdai a sesiynau dros gyfnod o 10 mis sydd wedi'u galluogi i ddatblygu a meithrin eu crefft fel dramodwyr.

Mae *Un Tro* gan **Sian Northey**, a *Teimlo* gan **Elin Gwyn** yn ddwy ddrama newydd a fydd yn cael eu perfformio yng nghanolfan Pontio ym Mangor a Theatr Clwyd yn yr Wyddgrug ar ddiwedd y mis. Felly dyma ni'n mynd ati i holi'r ddwy am y profiad o fod yn rhan o Grŵp Dramodwyr Newydd Theatr Genedlaethol Cymru:

**Beth wnaeth apelio atat i ymgeisio ar gyfer cynllun Grŵp Dramodwyr Newydd Theatr Genedlaethol Cymru?**

**Elin Gwyn:** Dwi wastad yn cadw golwg am gyfleoedd i sgwennu. Beth oedd yn apelio fwyaf am y grŵp yma oedd y cyfle i gael gweithdai drama gan ddramodwyr, a chael datblygu a thrafod fy ngwaith gyda chwmni theatr proffesiynol.

**Sian Northey:** Y cyfle i gael cymorth a chefnogaeth wrth fentro i faes diethr. Rwy'n edmygu dramodwyr yn fawr, ond roedd y chydig stwna roeddwn i wedi'i neud yn profi i mi nad oeddwn i'n gallu sgwennu drama mewn ffordd mor reddfol ag yr ydw i'n gallu sgwennu ffuglen neu farddoniaeth.

**Fel rhan o'r cynllun, rwyt wedi bod yn mynychu digwyddiadau theatrig a pherfformiadau o ddramâu – pa un sydd wedi creu'r argraff fwyaf arnat?**

**EG:** *Anweledig* gan **Aled Jones Williams**. Fe ges i fy nghyffwrdd gan y ffordd roedd y ddrama'n trafod gwellhad a'r ffordd roedd yn rhaid i'r cymeriad newid er mwyn goroesi.

**SN:** Theatr plant ydi'r un sydd wedi bod yn agoriad llygad. Beryg mod i'n diflasu pobl yn sôn am *Yana and the Yeti*, sioe bypedau gan **Pickled Image**.

**Ble wnest ti hyfforddi / pryd ddechreuaist ti sgwennu?**

**EG:** Dwi wastad wedi sgwennu ac wedi cael fy annog i sgwennu ers yn blentyn. Mi wnes i astudio Llenyddiaeth Saesneg ym Mhrifysgol Caerdydd a doethuriaeth yn y Gymraeg ym Mhrifysgol Bangor. Dwi'n ffodus iawn i gael swydd efo **Cwmni Da** sy'n galluogi i mi sgwennu'n greadigol.

**SN:** Mi oeddwn i'n sgwennu'n blentyn, yna rhoi'r gorau iddi hi pan es i astudio gwyddoniaeth ar gyfer lefel A, peidio sgwennu o gwbl am rhyw bymtheg mlynedd ac yna ail ddechrau. Erbyn i mi ddechrau fy noethuriaeth mewn ysgrifennu creadigol mi oeddwn i, trwy lwc fwy na dim, wedi sefydlu fy hun fel sgwennwr a chyfieithydd llawrydd. Ac mi wnes i gwblhau'r ddoethuriaeth llynedd yn fy mhumdegau hwyr.

**Allan o'r dramâu rwyt ti wedi eu darllen yn ddiweddar, pa un sydd wedi creu'r argraff ddyfnaf arnat?**

**EG:** Dwi'n mwynhau darllen dramâu, ac mae'r cwrs yma wedi bod yn esgus da i mi brynu cyhoeddiadau o ddramâu gwnes i fethu eu gweld yn y theatr. Dwi wedi mwynhau *Yerma* gan **Simon Stone** a *Lungs* gan **Duncan Macmillan** yn enwedig.

**SN:** *Iesu!* gan **Aled Jones Williams** mwya tebyg gan na wnes i ei gweld hi pan gafodd ei llwyfannu. Ac yn fwy cyffredinol mae darllen dramâu wedi gwneud i mi sylweddoli fod darllen drama a'i gweld hi ar lwyfan yn fy mhen yn sgìl dw i angen ei ddatblygu os am sgwennu drama fy hun.

**Bydd dy waith yn cael ei ddarllen yn gyhoeddus yn ystod Theatr Gen Creu ar Daith: Pwy 'Sgrifennodd Honna? – wyt ti'n edrych ymlaen at gael dy waith wedi'i ddarllen yn gyhoeddus ar lwyfan?**

**EG:** Dwi'n edrych ymlaen mewn ffordd, ond yn teimlo'n nerfus iawn am y peth hefyd. Byddai'n falch pan fydd o drosodd masiwr!

**SN:** Nag ydw! Yndw! Nag ydw! Mae'r rhan call ohona i'n wirioneddol edrych ymlaen i weld be all cyfarwyddwr ac actorion ei wneud ohoni; dw i ddim mor siŵr a ydw i'n edrych ymlaen at farn cynulleidfa. Rhywbeth tebyg i gyhoeddi nofel wrth gwrs, ond gwaeth dw i'n ama gan fod pawb yn mynd i fod yna efo'i gilydd.

Gallwch weld darlleniadau o ddramâu newydd gan Sian Northey ac Elin Gwyn fel rhan o **Theatr Gen Creu ar Daith: Pwy 'Sgrifennodd Honna?** Mae'r tocynnau'n rhai Talwch faint a fynnwch, a gellir eu harchebu trwy'r canolfannau:
**25 Mehefin 19.30, Pontio, Bangor**
(www.pontio.co.uk | 01248 38 28 28)






## Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

**Gallai newidiadau i gymorth ariannol adael pobl hŷn yng Nghymru £600 y mis yn waeth eu byd, yn ôl rhybudd y Comisiynydd**

Mae Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru wedi galw ar Lywodraeth San Steffan i atal newidiadau sydd ar fin digwydd i Gredyd Pensiwn a Chymhwyster Budd-dal Tai oherwydd pryderon am yr effaith y byddant yn ei chael ar bobl hŷn.

Mae'r Comisiynydd yn pryderu y gallai cyplau 'oedran cymysg', lle mae un partner yn is nag oedran pensiwn y wladwriaeth, fod bron i £600 y mis yn waeth eu byd dan y system newydd arfaethedig, gyda chyplau'n gorfod hawlio Credyd Cynhwysol nes bod y ddau bartner yn cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth.

Mae hi'n neilltuol o bryderus am yr effaith sylweddol y gallai'r newidiadau ei chael ar incwm menywod sydd eisoes wedi eu heffeithio gan gydraddoli cyflym Oedran Pensiwn y Wladwriaeth (menywod WASPI) a'r rhai sydd â chyfrifoldebau gofalu.

Dywedodd Heléna Herklots CBE, Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru:

"Ers i'r newidiadau hyn gael eu cynnig, mae nifer y bobl hŷn sy'n byw mewn tlodi yng Nghymru wedi cynyddu i'r lefel uchaf ers 2005, ac amcangyfrifir bod 1 o bob 5 o bobl hŷn yn byw mewn tlodi erbyn hyn.

"Bydd y newidiadau arfaethedig yn cael effaith niweidiol ar lawer o bobl hŷn sydd eisoes yn cael trafferth cael dau ben llinyn ynghyd, a dyna pam rwy'n galw ar Lywodraeth San Steffan i wrthdroi ei phenderfyniad i weithredu newidiadau i gymhwyster ar gyfer Credyd Pensiwn a Budd -dal Tai."

Yn ei llythyr at yr Ysgrifennydd Gwladol dros Waith a Phensiynau, Amber Rudd AS, mae'r Comisiynydd wedi dweud, os caiff y newidiadau eu datblygu, bod yn rhaid rhoi trefniadau trosiannol ar waith i liniaru effaith y newidiadau, diogelu'r rhai fydd yn cael eu heffeithio a sicrhau eu bod cael digon o amser i addasu.

Ochr yn ochr â hyn, mae'r Comisiynydd hefyd wedi galw ar Lywodraeth San Steffan i gyflwyno ymgyrch i godi ymwybyddiaeth ynghylch Credyd Pensiwn, sy'n cael ei hawlio gan ddim ond 60% o'r rhai sy'n gymwys ar hyn o bryd.

Ychwanegodd y Comisiynydd:

"Mae'n hanfodol bod pobl hŷn sy'n ei chael hi'n anodd yn ariannol yn hawlio'r holl gymorth ariannol y mae ganddynt hawl i'w gael. Fodd bynnag, amcangyfrifir bod pobl hŷn yng Nghymru yn colli tua £170 miliwn bob blwyddyn mewn Credyd Pensiwn heb ei hawlio - arian a allai wneud gwahaniaeth cadarnhaol i'w sefyllfaoedd ariannol, yn ogystal â'u hiechyd a'u llesiant.

"Gan hynny, mae'n hanfodol bod mwy yn cael ei wneud i sicrhau bod pobl hŷn yn deall yr hyn y gallant fod â hawl i'w gael ac yn gallu cael gafael ar y cymorth sydd ei angen arnynt i hawlio'r hawliau hyn."

# DATHLU DINBYCH 175

*Yn ystod y mis hwn bydd y clwb criced lleol yn cynnal cinio mawreddog ar y maes er mwyn dathlu 175 mlynedd o'i fodolaeth. Dyma un o glybiau criced hynaf Cymru, a dyma beth o'i hanes.*

Y tro hwn trown ein sylw at chwedegau a saithdegau'r ganrif ddiwethaf. Trwy gyfrwng dogfennau - a dderbyniais drwy garedigrwydd Mr Bobi Owen -diddorol oedd gweld na chwaraeid unrhyw gêm ar y Sadwrn cyntaf ym mis Mai ym 1962 gan mai hwnnw oedd dyddiad rownd derfynol Cwpan FA Lloegr.

Roedd hwnnw yn ddiwrnod sanctaidd gan mai'r FA Cup Final oedd un o'r ychydig gemau pêl-droed a ddarlledid yn fyw ar y teledu yn y dyddiau du a gwyn rheini.

Doedd y tîm ddim yn chwarae mewn cynghrair fel y cyfryw bryd hynny, ond roedd yna galendr llawn o gemau wedi'i drefnu rhwng Ebrill 28ain a Medi'r 8fed, sef 20 gêm ar Sadyrnau a naw gêm yn ystod yr wythnos!

Rhwng Awst y pedwerydd a'r unfed ar ddeg o'r mis y bwriad oedd chwarae saith gêm, a phump o'r rheini gartref.

Yn ogystal â'r uchod roedd yna 5 gêm ar y Sul ac wyth gêm ar nosweithiau gwaith.

Mae'n rhaid bod y gwragedd a'r cariadon yn rhai amyneddgar iawn y dyddiau hynny!

Ar y rhestr o wrthwynebwyr ceid y rhai a ddisgwylid megis Wrecsam, Llanelwy, Prestatyn, Brymbo, Bae Colwyn, Bangor, Rhuthun, Llanrwst, Bersham, Llandudno, Gresffordd, Helygain a Marchwiail,

Ond hefyd roedd yna dimau fel Liverpool FALCO, Bury Sports Club, AEC Athletic Club Middlesex ac Old Rockferrians a Capenhurst ymhlith yr ymwelwyr i Ffordd Ystrad.

Wrth gwrs - wrth edrych yn ôl dros y blynyddoedd - yr hyn na wyddys yw faint o'r gemau hynny na chwaraewyd oherwydd tywydd anffafriol.

Roedd yr ail dîm yn chwarae llai o gemau – 19 gêm – ac ymhlith y gwrthwynebwyr roedd yr Ysbyty Meddwl a ffatri Chance Pilkington, dau weithle a roddai gryn bwyslais ar chwaraeon.

Ym mis Tachwedd 1971 mewn cyfarfod, a fynychwyd gan gynrychiolwyr o 13 o glybiau, cytunwyd ffurfio Uwchgynghrair o 12 clwb ar gyfer 1973.

Diddorol fyddai gwybod pa glwb o'r 13 **na** ddewiswyd ar gyfer y gynghrair honno, ac ar ba sail y gwnaed y penderfyniad hwnnw.

**Stan Lyall**

PyBj



GWAITH SAER PEN-YBRYN Cyf

*Arbenigwyr Gwaith Coed a Lloriau*

Gwaith coed i gyfarfod â'ch holl ofynion

Ffôn:01745 815481 Facs:01745 814332

e-bost:mail@penybrynjoinery.co.uk

## Dreigiau Dinbych

Sefydlwyd Clwb Nofio Dreigiau Dinbych yn 2004, ac felly mae yn dathlu ei benblwydd yn bymtheg oed y flwyddyn yma. Dros y blynyddoedd mae'r clwb wedi tyfu o nerth i nerth – erbyn hyn mae gan y clwb 96 o aelodau gydag amrediad oed o chwech i ddeunaw oed, gyda'r aelodau yn dod o ardal eang o amgylch Dinbych.
Cynhelir oddeutu chwech sesiwn hyfforddi yr wythnos yng Nghanolfan Hamdden Dinbych, rhai yn gynnar yn y bore a rhai yn yr hwyr, y rhan fwyaf yn y pwll ac un sesiwn ymarfer corff ar dir sych.
Caiff yr aelodau eu hyfforddi gan griw o wirfoddolwyr ymroddgar dan adain y prif-hyfforddwr Justin Jones. Rhoddir pwyslais ar nifer o ffactorau er enghraifft parchu staff a chyd-aelodau a gweithio'n galed er mwyn cyrraedd y nod gan gofio mai cael hwyl yw'r flaenoriaeth.
Mae'r gwaith caled yn talu ar ei ganfed – ar hyn o bryd mae chwech o aelodau'r adran iau wedi cyrraedd rhengoedd y deg uchaf o nofwyr cyflymaf Cymru gydag un aelod yn gyntaf drwy Brydain yn nofio'r broga 50m.
Yng ngala Diddy Clwb Nofio Bangor yn Llandudno yn ddiweddar, bu i glwb Dreigiau Dinbych ennill pymtheg o fedalau aur, saith arian ag un efydd gyda phedwar o'r aelodau yn ennill tlysau am y bachgen a'r ferch orau yn eu hoedran.
Mi fydd yr wythnosau nesaf yn brysur iawn gyda rhagor o galâu, gan gynnwys gala Cenedlaethol Cymru yn Abertawe a naw o aelodau'r clwb wedi cymhwyso i ymgeisio.
Does dim angen cystadlu i fod yn rhan o deulu'r clwb chwaith. Mae aelodau yn ymuno am amrywiaeth o resymau, naill ai i gael hwyl, gwella eu nofio a ffitrwydd, cymdeithasu gyda phlant o ysgolion gwahanol, yn ogystal ag i gystadlu mewn galâu ar draws y rhanbarth ac yn bellach.
Dewch i ymuno gyda ni. Croeso i chi gael sesiwn blasu a sesiwn hyfforddi cyntaf yn rhad ac am ddim ar Ddydd Iau 5-6 yh neu Ddydd Sul 3-4 yh.
Cysylltwch â ni ar:
Twitter: @DenbighDragons
www.denbighdragons.co.uk
Facebook:Clwb Nofio Dreigiau Dinbych
Lluniau ar dudalen 24

# CLWB RYGBI DINBYCH

Gwelwyd un o berfformiadau gorau'r flwyddyn ar Faes Terry Bryer yn ngêm gartref ola'r tymor i'r Tîm Cyntaf. Y gwrthwynebwyr oedd Pwllheli, un o'r ceffylau blaen yn y Gynghrair gydol y tymor. Croesodd Dinbych y llinell saith gwaith, gyda dau gais yr un i Gruff Roberts ac Aidyn Jones, i sicrhau pwynt bonws mewn buddugoliaeth o 46-31, gyda'r ymwelwyr yn sgorio pum cais eu hunain. Robin Williams sgoriodd yr unig gais yng Nghaernarfon yng ngêm ola'r tymor, gyda'r Cofis yn cario'r dydd o 31-7. Er gwaethaf nifer o anhawsterau ar ac oddi ar y maes chwarae, llwyddodd y tîm i orffen yn yr wythfed safle yn Adran 1, canlyniad digon boddhaol gyda'r gobaith am well i ddod y tymor nesaf.
Llwyddodd yr Ail Dîm i guro Ail Dîm Pwllheli o 31-21, gyda Ben Reed a Dylan Easton yn sgorio dau gais yr un, cyn cloi'r tymor gyda buddugoliaeth gartref arall o 20-17 yn erbyn Caergybi, gyda chais yr un i Huw Mars-Jones, Iwan Johnson ac Aidyn Jones. Ar y chwiban olaf, dangoswyd cerdyn coch "seremonïol" i'r bachwr bytholwyrdd, Roger Clayton, i nodi ei gêm olaf i'r Clwb yn dilyn ei benderfyniad i roi'r gorau i chwarae wedi dros ugain mlynedd o wasanaeth i'r Clwb.
Wrth guro'r Bala gartref o 55-5 yn eu gêm Gynghrair olaf, sicrhaodd yr Ieuenctid eu safle ar frig Pencampwriaeth Ieuenctid Gogledd Cymru (un lefel yn is na'r Brif Adran) am y tymor. Cafwyd ceisiau gan Ferdi Murray, Ethan Steele, Rowan Hughes a dau i Henry Davies. Chwaraewyd gêm ola'r tymor yn Wrecsam, sef Rownd Derfynol Cystadleuaeth Plât Ieuenctid Gogledd Cymru. Er i Henry Davies groesi'r llinell gais ddwywaith eto, Ieuenctid Pwllheli enillodd y tlws, gyda sgôr terfynol o 27-12.
Llongyfarchiadau i Beth Evans, Fflur Evans a Seren Brown ar gael eu dewis i ymuno â charfan Merched RGC Dan U18 tymor nesaf. Cychwynodd y tair disgybl o Ysgol Glan Clwyd eu gyrfaoedd Rygbi yng Nghlwb Rygbi Dinbych ac mae'r Clwb yn hynod falch o'u gweld nhw'n cael eu dewis i gynrhychioli'r rhanbarth.
Llongyfarchiadau ychwanegol i'r Mewnwr Beth Evans, aelod o Glwb Rygbi Dinbych ers iddi fod yn 4 mlwydd oed. Cafodd hi ei dewis fel eilydd i Garfan Datblygu Cymru. Braint anhygoel i Beth a'i theulu.

*John Davies a Sam Jones*



Carfan Ieuenctid Clwb Rygbi Dinbych



# Clwb Pêl-droed Dinbych

Diweddglo siomedig a gafwyd i dymor CPD Dinbych wrth iddynt gael eu hanfon i lawr o gynghrair Huws Gray Cymru i Gynghrair Lock Stock Cymru.

Gan fod Dinbych wedi chwarae bob gêm wythnos cyn i'r timau oddi tanynt orffen (Treffynnon a Phenrhyn-coch), roedd hi'n ddiwrnod pryderus wrth i Ddinbych obeithio y byddai'r ddau dîm yn colli eu gemau er mwyn caniatáu i Ddinbych aros yn y gynghrair. Ond siom a gafwyd wrth i Dreffynnon a Phenrhyn-coch ennill eu gemau a olygodd fod y ddau dîm yn codi uwchlaw Dinbych. Union flwyddyn ers i Ddinbych orffen eu tymor yn y safle uchaf erioed yn hanes y clwb, gorffennwyd y tymor yma gyda diraddiad i gynghrair is.

Bu'n rhaid i'r rheolwyr ifanc Dewi Llion a Matty Jones ddechrau'r tymor gyda charfan newydd sbon yn dilyn sawl ymadawiad gan chwaraewyr i Rhyl a Bae Colwyn, a phenderfynwyd bryd hynny dylid cynnwys mwy o chwaraewyr lleol yn y garfan. Wedi i'r newyddion am y diraddiad gyrraedd y Clwb, fe gyhoeddodd Matty Jones ei fod yn gadael Dinbych er mwyn rheoli Llandudno sydd wedi eu diraddio yn ddiweddar o Uwch Gynghrair Cymru.

Penodwyd Dewi Llion felly fel y rheolwr ac mae wedi symud yn sydyn er mwyn apwyntio'r arwr lleol, Owain Roberts fel ei gynorthwyydd. Cafodd Roberts yrfa arbennig ym myd pêl-droed Cymru wedi iddo chwarae i'r Bala yn Uwch Gynghrair Cymru ac i Ddinbych pan enillon nhw Gynghrair Lockstock Cymru yn 2014. Ers hynny, chwaraeodd i'w dîm lleol, Llannefydd yn ogystal â chwarae i Gefn Meiriadog yng Nghynghrair yr Haf hefyd.

Mae'r Tîm Rheoli bellach yn edrych am chwaraewyr newydd i ymuno gyda'r garfan wrth i sawl aelod o'r tîm presennol adael eleni. Mae capten y Clwb, Tony Davies wedi gadael er mwyn ymuno gyda Fflint United, a Scott McHarrie, Sam Downey a Curtis Langton wedi symud i Landudno.

Parha Gareth (Perry) Thomas fel Cyfarwyddwr Pêl-droed y Clwb gyda'r rôl o roi cymorth ac arweiniad i'r tri thîm mae'r Clwb yn eu rhedeg.

Gorffennodd yr Ail Dîm y tymor gyda buddugoliaeth o 4-1 ym Mae Colwyn gyda goliau gan Rhys Llwyd (2) ac Andy Thomas (2). O ganlyniad i'r fuddugoliaeth, gorffennon nhw'n ail yng Nghynghrair Ail Dîm Lockstock Cymru gydag 14 gêm yn olynol heb golli.

Wedi'r gêm olaf, fe benderfynodd y rheolwr, Kev Roberts ei fod yn amser iddo gamu lawr o'i rôl. Mae Roberts wedi gwneud gwaith arbennig gyda'r Ail Dîm dros y tymhorau diwethaf ac mae i'w ganmol am ei waith caled. Bydd yn parhau fel rheolwr y tîm Dan 15. Fe benderfynodd ei gynorthwyydd, Gareth Hughes, ychydig ddyddiau yn ddiweddarach ei fod yntau hefyd am adael i ganolbwyntio ar ei yrfa yn y maes bowliau. Hoffai'r Clwb ddiolch i'r ddau ohonynt am eu gwaith gyda'r Ail Dîm. Bydd y rheolwr newydd yn cael ei gyhoeddi yn yr wythnosau nesaf.

Bydd gan dîm Denbigh Development reolwr newydd y tymor nesaf hefyd gyda Craig Morris yn dechrau ei swydd newydd ar ôl i Dan Whitfield ac Alex Douglas ymddiswyddo. Bydd Whifield yn aros ymlaen i helpu Morris fel ei gynorthwyydd.

Cynhaliwyd Noson Wobrwyo Diwedd Tymor y Clwb yn y Plas Pigot ble gwobrwywyd chwaraewyr gwahanol am eu hymdrechion dros y flwyddyn. Un o uchafbwyntiau'r noson oedd gwobr Clybiwr y Flwyddyn a aeth i Owen Thomas, sy'n 81 oed. Owen oedd yn gyfrifol am y raffl ar ddiwrnod gemau am sawl blwyddyn ac mae wedi gwneud sawl cyfraniad at gronfa'r clwb. Mae wedi dilyn y Clwb ers dros 60 mlynedd bellach ac roedd yn aelod o'r Pwyllgor am sawl tymor. Ar ôl derbyn y wobr, fe ddywedodd, "Mae ennill y wobr hon yn golygu gymaint i mi. Dwi wrth fy modd yn helpu'r Clwb ac mae'n braf bod fy ngwaith yn cael ei gydnabod hefyd."

Cyflwynodd Cadeirydd y Clwb, Shon Powell y gwobrau canlynol:

<u>Tîm Cyntaf</u>
Chwaraewr y Rheolwr: Sam Downey
Chwaraewr y Chwaraewyr: Scott McHarrie
Chwaraewr y Cefnogwyr: Lewis Sirrell
Sgoriwr Uchaf: Mark Roberts

<u>Ail Dîm</u>
Chwaraewr y Rheolwr: Gwion Bibby
Chwaraewr y Chwaraewyr: Jacob Parry
Chwaraewr y Cefnogwyr: Lewis Jenner
Sgoriwr Uchaf: Andy Thomas

<u>Denbigh Development</u>
Chwaraewr y Rheolwr: Josh Jones
Chwaraewr y Chwaraewyr: Ross Slater
Sgoriwr Uchaf: Ashley Andrews

<u>Gwobrau eraill</u>
Chwaraewr Ifanc y Tymor: Owen Evans
Clybiwr y Flwyddyn: Owen Thomas

Yn y llun tud flaen mae Owen Thomas yn derbyn ei wobr am Glybiwr y flwyddyn gan Aelod y Pwyllgor, Iwan Jones.

Morgeisi
CARTREF
Mortgages

**Cyngor Morgais Di-Ffi**
Cynnyrch y Farchnad Gyfan ar gael
Gwasanaeth Dwyieithog
Symud Tŷ | Prynu | Ailforgeisio

Gwasanaeth Proffesiynol, Gonest a Chyfrinachol

Ffoniwch neu E-bostiwch Rhodri Sellers
0782 8824596 Rhodri@cartrefmortgages.co.uk

**<u>Hysbysebion</u>**

| | |
|---|---|
| 4cm x 4cm | £3.00 |
| 9cm x 4cm | £6.00 |
| 9cm x 7cm | £10.00 |
| ¼ tudalen | £15.00 |
| ½ tudalen | £25.00 |
| Tudalen Llawn | £50.00 |

# Ffair Wanwyn Capel Pendref




Eisiau mwy o awgrymiadau am arddio!!





Elen Wyn yn cysgu'n braf




Maldwyn a Brenda




Nel yn helpu



Eiry a Nia



Parch Cledwyn Parry a Geraint



Medwyn, Elfed a Gwyn



Sali a Mary yn edrych ar ôl y baned



Sylvia a Betty

cyngor sir ddinbych

Cynghorydd

**Mark John Young**

**Dinbych Isaf - Annibynnol**

C/O 13 Stryd y Dyffryn, Dinbych
E:mark.young@denbighshire.gov.uk
F:01745 814864 S:07825 912554

www.sirddinbych.gov.uk



Tîm Dreigiau Dinbych



Tîm iau Dreigiau Dinbych



Enillwyr y bachgen a'r ferch orau yn eu hoedran, Gala Diddy Llandudno o'r chwith i dde - Madi-Haf Jones, Sian Evans, Flora Jones, Ewan Leonard



Tim bowlio deg cangen Merched y Wawr Dinbych fu'n cystadlu yn y Bowlio Deg Rhanbarthol



Côr Merched Glyndŵr yn 1993